PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer



PRIS 75c | Rhif 354 | RHAGFYR 2012



**Ennill prentisiaeth**

t14

**Olion diddorol**



t9



**Deli newydd**

t14

# Nyrsys y Flwyddyn 2012

Eleni am y tro cyntaf cynhaliodd rhanbarth Cymru o'r Coleg Nyrsio Brenhinol gystadleuaeth i gael hyd i Nyrs y Flwyddyn. 'Roedd naw categori nyrsio yn cael eu gwobrwyo a gwahoddwyd yr enillydd a'r ail o bob categori i'r seremoni wobrwyo yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd ar Dachwedd 28ain.

Mae dwy o'r enillwyr gyda chysylltiad â'r ardal hon.

Daeth Maureen Jones, Penrhyn-coch, sy'n Uwch Fydwraig yn Ysbyty Bron-glais yn gydradd gyntaf yn y categori Pediatreg a Bydwreigiaeth. Enwebwyd Maureen gan Catherine Cotter. Mae wedi datblygu rhaglen hyfforddi sgiliau a driliau gorfodol yn arbennig ar gyfer Gweithwyr Gofal Iechyd i wella cyfraniad pob aelod y tîm mewn sefyllfa frys. Mae gofyn i feddygon iau ddilyn sesiwn hyfforddi efo Maureen sy'n cynnwys sgiliau theori ac ymarferol fel rhan o'u sefydlu yn yr Uned..

Daeth Sali Burns (Pant-drain gynt) yn ail yn y categori nyrsio iechyd meddwl.

Cafodd ei henwebu ar gyfer y wobr gan un o'i rheolwyr yn Ngwasanaethau Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Fel un o'r rhai oedd



Maureen Jones



Sali Burns

wedi cyrraedd y rhestr fer, bu'n rhaid iddi fynd i Gaerdydd ar Fedi 21ain er mwyn rhoi cyflwyniad am ei gwaith a chael cyfweliad gyda phanel o feirniaid oedd yn aelodau o fwrdd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru ac/neu yn arbenigwyr yn y maes iechyd meddwl ac anableddau dysgu.

Mae Sali yn gweithio fel nyrs iechyd meddwl a therapydd grwpiau yng Ngwasanaethau Seicolegol Siroedd Conwy a Dinbych. Y gwaith arweiniodd at ei henwebiad oedd yr ymdrechion a wnaeth - gydag eraill ar draws Cymru - i wella darpariaeth iechyd meddwl ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae'n cyflawni'r gwaith hwn efo cydweithwyr a grwpiau ar lefel lleol yn Siroedd Conwy a Dinbych, ar lefel ardal Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ac ar lefel genedlaethol trwy fod yn aelod o bwyllgorau sy'n cael eu harwain gan weinidogion Llywodraeth Cymru. Mae wedi creu deunyddiau therapiwtig yn Gymraeg, wedi cyfrannu at greu rhaglenni hyfforddiant sy'n pwysleisio defnydd y Gymraeg yn y cyd-destun clinigol ac wedi bwydo mewn i ymgynghoriadau ar ddeddfwriaeth

..parhau ar t3

**Geiriau** Bydwreigiaeth – Midwifery Ymgynghoriadau – Consultations

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Rhodri Morgan**
Maes Mieri, Llandre, ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Bryn Roberts**
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 46 Bryncastell ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dai Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Ionawr

**Deunydd i law: Ionawr 4 | Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 17**

**RHAGFYR 20** Nos Iau Plygain draddodiadol yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn am 7.30

**RHAGFYR 21** Bore Gwener Oedfa Nadolig Ysgol Penweddig ym Methel, Aberystwyth am 10.30

**RHAGFYR 21** Dydd Gwener Ysgolion Sir Ceredigion yn cau am wyliau y Nadolig

**2013**

**IONAWR 8** Dydd Mawrth Ysgolion Sir Ceredigion yn agor ar ôl gwyliau y Nadolig

**IONAWR 9** Nos Fercher Robat Gruffydd yn trafod ei nofel Afallon yng Nghymdeithas Gymraeg y Borth am 7.30

**IONAWR 15** Nos Fawrth Gyrfa chwist yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor am 8.00. Croeso i bawb; bydd y raffl fawr yn cael ei thynnu.

**IONAWR 16** Nos Fercher Y Prifardd Hywel Griffiths yn darllen a thrafod ei farddoniaeth Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**IONAWR 18** Nos Wener Noson yng nghwmni Dr. Mihangel Morgan, Tal-y-bont. Cymdeithas Lenyddol y Garn yn y Festri.

**IONAWR 26** Nos Sadwrn Cyngerdd dathlu gyda Hogia'r Wyddfa, Linda Griffiths a'r merched, Côr Meibion Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Pen-glais am 7.30. Tocynnau gan aelodau o'r Cor Meibion; yr elw tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon.

**CHWEFROR 3** Pnawn Sul Theatr Genedlaethol yn perfformio Y Bont (gan Catrin Dafydd, Ceri Elen, Arwel Gruffydd ac Angharad Tomos) am 1.00 ar strydoedd Aberystwyth Lle i 500 yn unig.Tocynnau gan Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth Ffôn: 623232 Pris tocyn - £15/£12

**Hoffai Ceris Gruffudd ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i gyfeillion a darllenwyr y Tincer. Yn ôl 'f'arfer ni fyddaf yn gyrru cardiau Nadolig ond yn cyfrannu eleni i elusen Cronfa Achub y Plant.**



## Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru


**Cronfa Eleri**

**Blwyddyn 2012 – dros £15,400 i'w rannu**

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: **www.cronfaeleri.com**
Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ
**Tel:** 01970 832551 **e-bost:** ymholiadau@cronfaeleri.com

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 13eg 2013**

**Amcanion Cronfa Eleri**
*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*


## TREFNIADAU CASGLU SBWRIEL DROS Y GWYLIAU

Bydd sbwriel yn cael ei gasglu fel arfer yng Ngheredigion ar ddydd Llun, wythnos y Nadolig a'r Calan ond am weddill yr wythnos bydd y casgliad ddiwrnod yn hwyrach (ac ar y Sadwrn ar gyfer y rhai sydd fel arfer yn cael eu casglu ar ddydd Gwener.

...parhad o dudalen 1

a pholisi ar ofal iechyd meddwl yn Nghymru.

Er bod y rhan fwyaf ohonom erbyn hyn ddigon rhugl yn Saesneg yn ogystal a Chymraeg, pan mae angen mynegi ein meddyliau a theimladau 'does dim gwell na medru cyfathrebu yn yr iaith 'rydym mwyaf cysurus ynddi. Mae hyn yn medru lleihau risg a chryfhau perthynas therapiwtig rhwng y claf a'r gweithiwr iechyd meddwl. Hefyd, pan yw pobl yn ddirfawr wael mewn cyflwr iechyd meddwl, mae nhw'n medru colli'r gallu i ymafael yn eu geirfa Saesneg. Mae'r agenda parch ac urddas mewn gofal iechyd yn golygu bod y gwaith yma yn holl bwysig yn y Gymru cyfoes.

Yn ol Sali ' "Allan o'r 9 enillydd, 'roedd un yn cael eu penodi yn Nyrs y Flwyddyn 2012. Mae'n falch iawn gen i ddweud mai'r nyrs fuddugol yn y categori iechyd meddwl (Louise Poley, Caerdydd) aeth ymlaen i gael yr anrhydedd honno. Da iawn yw gweld cydnabyddiaeth o'r fath ar gyfer gwaith da yn y maes iechyd meddwl."

Yn ferch i Megan a'r diweddar Eurig Davies, Pantdrain, Penrhyn-coch mae Sali erbyn hyn yn briod â Jimmy sydd yn blismon yn ardal Porthmadog ac yn byw yn Waunfawr, Caernarfon gyda'u plant Jac, Poppy a Deri.



## 20 MLYNEDD YN OL

Tîm siarad cyhoeddus buddugol Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont – Angharad Fychan, Maesmeurig, Pen-bont Rhydybeddau, Aled ac Elen Hughes, Pen-cwm, Penrhyn-coch a Catrin Mason, Bryngwyn Mawr, Dolau. (o'r Tincer, Rhagfyr 1992).

### Côr Cymru 2013

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Gôr Ger-y-lli a'u harweinydd Greg Roberts (Corau Cymysg) a Chôr Pantycelyn a'u harweinydd Eilir Pryse (Corau Ieuenctid) sydd drwyddo i rowndiau cyn-derfynol Corau Cymysg Côr Cymru 2013 ar 15-17 Chwefror. Bydd tocynnau ar gael trwy gysylltu â Rondo ar ôl Ionawr 7fed - 029 2022 3456 neu corcymru@rondomedia.co.uk

### Clwb Cylch Cinio Aberystwyth

Yn y flwyddyn newydd, beth am ymuno â dynion Clwb Cylch Cinio Aberystwyth? Mae'r Clwb yn cwrdd yn fisol (yr ail nos Wener yn y mis), ac yn mwynhau pryd dau gwrs a chwmni siaradwyr gwadd. Yn y gorffennol, cafodd y Clwb gwmni siaradwyr a fu'n trafod pynciau mor amrywiol â theithio arfordir Ceredigion a chasglu lampau olew. £10 y mis yw'r gost, ac mae'r Clwb wedi rhoi dros £2,000 i elusennau lleol ers Ionawr 2011, gan gynnwys . Rees Thomas, Bow Street, yw'n cadeirydd eleni, ond os hoffech gael mwy o fanylion, cysylltwch â Richard Davies (01970 828702), ebost: dickywyn@hotmail.com

### Diolch

Hoffai Elin a Rhys Williams a'r teulu o Gaerfyrddin (ma Elin yn dod yn wreiddiol o Bont-goch) ddiolch yn fawr iawn i bawb o ardal Y Tincer a wnaeth noddi Jon Owen i redeg marathon Eryri nôl ym mis Hydref. Llwyddodd Jon i godi dros £4,500 a bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i roi therapi llefaredd arbenigol i Heti, merch fach Elin a Rhys sydd yn fyddar.

### Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr **Cyfeillion y Tincer Mis Tachwedd 2012**

£25 (Rhif 101) Gwynfryn Evans, Y Ddôl. Llandre

£15 (Rhif 186) Delyth Jones, Rhydyrysgau, Glanceulan, Penrhyn-coch

£10 (Rhif 233) Elin Pierce Williams, 46 Bryncastell, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Tachwedd 14.

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan, os am fod yn aelod.

Am restr o Gyfeillion y Tincer gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

### Y Tincer ar dâp

Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu.

Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)


**Telerau hysbysebu**

Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis, llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

# LLANDRE

### Cerddorion ifanc

Llongyfarchiadau i Rhun a Gwern Penri ar gael eu dewis yn aelodau o Fand Pres Ieuenctid Cenedlaethol Cymru gan ddilyn ôl traed eu brawd hŷn Osian sydd yn gyn-aelod.

### Gwellhad buan

Gwellhad buan a dymuniadau gorau i Sera Llewelyn, Llys Berw, ac i Llinos Dafis, Cedrwydd – y ddwy wedi cael anaf yn ystod yr wythnosau diwethaf.

### Capel Mwyaf unig Cymru yn cael sylw yng nghanol Llundain

Caiff capel Soar-y-Mynydd ger Tregaron ei ddisgrifio yn aml fel yr addoldy mwyaf diarffordd yng Nghymru ond nawr mae'n cael sylw arbennig yng nghanol prysurdeb canol Llundain. Mae'r darlun olew o gapel gwyngalchog Soar-y-Mynydd o waith Wynne Melville Jones yn cael ei arddangos yng Nghanolfan Cymry Llundain yn Gray's Inn Road Llundain tan ddiwedd Ionawr 2013.

Dyma'r cyntaf o gyfres o 12 darlun o waith yr artist fydd yn cael eu harddangos yn Llundain yn ystod 2013 a bydd yn gyfrwng i atgoffa Cymry Llundain o'u treftadaeth diwylliannol ac anghydffurfiol.



### Banc Bro



Nia Clubb, Ysgoldy yn cyflwyno blodau i Mary Thomas, Dolgelynen ar achlysur agor y Noson Nadoligaidd Gymunedol ym Methlehem ar Nos Wener 30 o Dachwedd.

Roedd Ysgoldy Bethlehem dan 'i sang eto nos Wener 30 Tachwedd ar gyfer Noson Nadoligaidd y Gymuned. Dyna'r trydydd tro i'r noson hon gael ei chynnal ac mae'n ymddangos ei bod wedi ennill ei phlwyf fel digwyddiad i ddechrau ar ddathliadau'r Nadolig, Llywydd y noson eleni oedd Mary Thomas, Dolgelynen, ac wrth agor y ffair soniodd am bwysigrwydd Bethlehem i'r gymuned. Cyflwynwyd torch o flodau iddi gan Nia Clubb, Ysgoldy. Cafodd Siôn Corn groeso mawr ac roedd mynd mawr ar y stondinau, y raffl, y diodydd tymhorol a'r mins peis. Llwyddwyd i godi yn agos i £500. ar gyfer y gymuned. Eleni gwneir cyfraniad ariannol i goffrau Cylch Ti a Fi Genau'r-glyn ac i'r ymdrech i dacluso pentre Dôl-y-Bont yn sgîl llifogydd mawr 2012. Mae ein diolch yn fawr i bawb a wnaeth gefnogi'r noson mewn unrhyw ffordd.

### Pen blwydd Hapus

Pen blwydd hapus a dymuniadau gorau i May Davies, Brynhyfryd sydd wedi dathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar.

### Symud Tŷ

Dymuniadau gorau i Ellis Davies, Dolmeillion, sydd wedi symud i Afallen Deg. Gobeithio bydd yn hapus yn ei gartref newydd.

### Diolch

Dymuna May Davies, Brynhyfryd ddiolch i bawb am y dymuniadau gorau a chardiau a dderbyniodd ar achlysur dathlu pen blwydd arbennig.

Cofiwch anfon eich newyddion neu gyfarchion i'r rhifyn nesa at Mair England, rhif ffôn: 01970 828693; e-bost : mairllo@hotmail.co.uk .

### Clwb 50 Genau'r-glyn

Yn ystod y noson lawnsiwyd Clwb 50 er mwyn codi arian craidd ar gyfer cynnal gweithgareddau cymdeithasol trwy gyfrwng y Banc Bro. Am gyfraniad o £2 y mis mae siawns i'r aelodau ennill gwobrau. Mae 33 o wobrau yn flynyddol. Y nod yw cael 50 o aelodau i ymuno ac yn ôl y sôn gall y siawns o ennill fod yn uchel. Mae llwyddiant y Clwb yn llwyr ddibynnu ar gefnogaeth pobol y fro. Gellir naill ai dalu yn fisol trwy archeb banc neu drwy dalu y cyfanswm ar ddechrau'r flwyddyn. Bydd y Clwb yn dod yn weithredol yn Ionawr 2013. Mae modd cael gwybodaeth bellach am y Clwb gan David England neu Gwynfryn Evans.

Mae gweithgareddau eraill y Banc Bro ar gyfer 2013 yn cynnwys dathlu'r Fari Lwyd, Noson o Ffilmiau a Talwrn yn y Parc. Daw mwy o hanes y gweithgareddau yn *Y Tincer.*

# Y BORTH

### Cymdeithas Gymraeg y Borth

Nos Fercher, 14 Tachwedd daeth y Parchedig Andy Herrick atom i sôn am y gwaith ardderchog y mae ef yn ei wneud i helpu cornel fach yn Zambia. Cawsom agoriad llygad o weld sut mae trigolion Mochipapa yn byw a'r angen mawr am gymorth sydd yn y wlad. Casglwyd £110 o bunnoedd yn ystod y cyfarfod ac mae'r Parchg Herrick eisioes wedi ei anfon i Zambia i helpu gyda gwaith brys mewn cartref plant amddifad – bydd hyn yn gwneud effaith enfawr ar eu gwaith a rhoi bwyd a dillad, ynghyd ag urddas, i'r 60 o blant sy'n byw yn y cartref. Diolchwyd i'r Parchg Andy Herrick gan ein Llywydd, Margaret Griffiths ac ategwyd at hyn gan y Parch. W. J. Edwards.

### Llongyfarchiadau!

Llongyfarchiadau i Yvonne a Gwyn James, Moelcerni, ar enedigaeth merch o'r enw Emma Morgan ar 17 Tachwedd, 2012 – chwaer fach i Jac a Harri. Llongyfarchiadau hefyd i Glenys a John (mam-gu a tad-cu Moelcerni) ar enedigaeth eu hwyres fach gyntaf. Mae'r dyddiad y cafodd Emma ei geni – sef 17 Tachwedd yn gyfarwydd i'r teulu gan mai ar y diwrnod hwn, union ganrif yn ôl, y ganwyd hen fam-gu Emma – y ddiweddar Eunice James, Moelcerni.

Pob dymuniad da i'r teulu a chroeso i Yvonne, Gwyn a'r plant i'w cartref newydd ym Moelcerni.

Llongyfarchiadau i Catrin a Phill Evans, Tŷ Olaf, ar enedigaeth eu plentyn cyntaf. Ganwyd Iestyn Thomas ddydd Llun, 24 Tachwedd. Mae Iestyn hefyd yn ŵyr i Glenwen a Ieuan Thomas, Maes Ceiro, Bow Street. Pob dymuniad da i'r teulu a chroeso mawr i Iestyn.

### Cydymdeimlad


Cydymdeimlwn yn ddwys â Elin Hefin a Meg ar farwolaeth John Hefin ar Dachwedd 19.

### Diolch

Hoffai Meg ac Elin, Ynyswen, ddiolch o waelod calon i bobl ardal y Tincer am bob arwydd o gydymdeimlad wedi marwolaeth John.Maent wedi bod yn help mawr ar adeg mor ofnadwy o drist. Rydym wedi mwynhau 20 mlynedd yma ac mae genym atgofion sobor o felys am ein bywyd ar y traeth. Diolch.

---

Dyma werthfawrogiad John o'i fywyd yn y Borth a sgrifennodd ar gyfer rhaglen y Carnifal rhai blynyddoedd yn ôl.



**'Pendroni**

Er mai ond deng niwrnod mae'n bodoli, gellir dadlau fod pob diwrnod yn Garnifal yn y Borth. Cofiwch, nid pawb fydde'n cytuno oherwydd lle gwahanol yw'n pentre ni; ych chi naill ai'n dwlu am y lle neu'n ei gasau, does dim tir canol.

Bob Gorffennnaf fe fydd na Frenhines hardd yn goleuo'r stryd fawr ac mae atgofion o Seren, Meg, Hannah, Rhiannon a Lauren yn llifo'n gynnes , hapus i'r cof. Math arall o lifo sy'n digwydd yn y Friendship, y Fic a'r Railway fel yng Nghantre'r Gwaeold gynt. Fe gofiwch 'O dan y môr a'i donnau mae llawer dinas dlos'- ac mae Sarn Gynfelyn ger y Wallog a Sarn Fadryn ger Tywyn yn ein atgoffa o fel y bu pethau ger y Borth adeg Cantre'r Gwaelod. Ond fel y gwyddoch, llifo i fewn gwnaeth y môr oherwydd fod Seithenyn-feddw- gaib heb gau'r drysau mawr a chreu stori sydd efallai'n wir.

Parhau i lifo mae'r môr, y ddiod a'r harddwch.

Ond nid hardd yw'r disgrifiad ohono ar fapiau cynnar, disgifir Borth fel 'A rude hamlet', barn sy'n dal i fodoli yn nhyb rhai o grach Aber!

Ymhell cyn 1864 a dyfodiad y rheilffordd, pentre llawn pysgotwyr a chapteiniaid llongau oedd y Borth. Boddwyd llawer, a mawr oedd nifer y gweddwon ac mae côf ohonynt yn cerdded wedi eu gwisgo o'u coryn i'w sawdl mewn du, o'r Borth i Aberystwyth i werthu basged neu fwy o benwaig, yn un clir. Wrth iddynt ddod i'r golwg dros Consti (neu Craig y Benglog) gwaeddai'r bobl o'r prom yn Aber 'Co nhw'n dod, Brain Borth!' Barn arall pobl Aberystwyth, ac o ganlyniad logo drawiadol ein pêldroedwyr!

Mae'r Clwb Pêldroed, y Bad Achub, y Frigâd Dân, yr Eglwys, y Neuadd, yr orsaf (ar ei newydd wedd), y siopiau a'r cafes, y ddwy Swyddfa Bost, y dair tafarn, y Fferyllydd, Côr y Gors,Yr Hostel Ieuenctid, y Clwb Croeso, y llu clybie llyfrau, y Clwb Golff, yr Ysgol, y Feddygfa a Defi Jones yn uno mewn ffordd sy'n anodd esbonio er creu cymdeithas anghyffredin o wych; ymunwch yn yr hwyl gan gofio nad yw pethau gorau bywyd yn bethau.'

**John Hefin**

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mân
01970 820149
07980 687475

**TACSI EDDIE**
BWS MINI, CEIR SALŴN
LLAWR IS AR GYFER CADAIR OLWYN
NEU SGWTERS SYMUDOL
YN ARBENIGO MEWN
TRAFNIDIAETH I'R ANABL
01970 828 642
07790 961 226
07800 500 481

# PENRHYN-COCH

**Oedfaon**
**Horeb**
**Rhagfyr**
23 2.00 Oedfa Nadolig Gweinidog
(Sylwer ar yr amser - 2.00)
25 8.00 Cymun fore'r Nadolig Gweinidog
30 10.30 Oedfa ola'r flwyddyn Gweinidog

**Ionawr**
6 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
13 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
20 2.30 Oedfa bregethu Gweinidog
27 10.30 Clwb Sul ac oedfa bregethu Gweinidog

**Eglwys Sant Ioan**
**Rhagfyr**
20 7.30 p/m. Plygain
23 10.45 a.m. Boreol Weddi
24 3.00 p.m. Carolau a chanhwyllau
11.30 p.m., Cymun y Nadolig
25 DIM GWASANAETH
30 2.30 p.m. Hwyrol Weddi yn Eglwys Capel Bangor

**Eglwys Elerch**
**Rhagfyr**
21 Carolau a Chanhwyllau am 7.00 p.m.
25 Bore'r Nadolig, Cymun am 8.00 a.m.
Vauxhall Grove



## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Dafydd ac Elen Sheppard, Dôl Helyg ar farwolaeth chwaer Elen yng Nghwm Rhondda.

â Eirian a Wendy Reynolds, Derfel a Manon, Ger-y-llan, ar farwolaeth tad Eirian - Jonah Reynolds, Heol Alun, Waunfawr; â theulu a chysylltiadau y ddiweddar Aida Sutherland, Ger-y-llan.

ac â Martha Edwards a Dilys Binks, Maes Seilo; ac Eluned Morgan a'u teuluoedd, 23 Glan Ceulan, a'u teuluoedd ar golli eu chwaer a chwaer yng nghyfraith yn ddiweddar, sef Ruth Davies, Ardwyn gynt. Un a gafodd ei geni a'i magu yn y pentref yn un o blant Court Villa. Cymeriad annwyl a hoffus iawn.


## Genedigaeth

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Rhun a Lowri Emlyn, Dôl Helyg, ar enedigaeth mab -Elis Teilo Emlyn fore Sadwrn 8 Rhagfyr.

## Cyhoeddi cyfrol

Cyhoeddwyd *Salem Soldier* (Y Lolfa) nos Fercher 22 Tachwedd yng nghyfarfod misol Cymdeithas y Penrhyn. Cyfrol yw sy'n cynnwys atgofion Elfed Davies - a fagwyd yn Salem a'i fab Brian. Ganwyd Brian ym 1946 a symud i Benrhyn-coch ym 1949 pan adeiladwyd y tai yn Maes Seilo. Roedd ei dad Elfed Davies o Salem, a'i fam Lena Davies o Aberystwyth. Roedd ganddo frawd - Nigel oedd yn 11 mis yn iau; bu farw Nigel yn 2009. Mae ganddo chwaer iau - Avril - sydd yn byw yng Nghaerfyrddin. Cafodd ei addysg yn Ysgol Penrhyn-coch, Ysgol Gymraeg Aberystwyth ac Ardwyn cyn mynd i Goleg Addysg Dinas Caerdydd. Gadawodd Penrhyn-coch ym 1966 a dechrau ei yrfa fel athro ond gweithiodd y rhan fwyaf o'i oes mewn canolfannau addysg awyr agored. Bu'n brifathro/bennaeth Canolfan Addysg Awyr Agored Kilvrough Manor ar Benrhyn Gŵyr yn ymyl Abertawe o 1979 hyd ymddeol yn 2006. Mae'n byw yn Kittle ar Benrhyn Gŵyr ond yn dychwelyd i Geredigion yn amal iawn i gerdded y mynyddoedd a pysgota, gan ddefnyddio ei camper van.

Roedd Brian wedi trefnu cyflwyniad diddorol i'r llyfr trwy gyfrwng nifer o hen luniau o gymeriadau Salem, Penrhyn-coch, Aberystwyth a gogledd Ceredigion. Ma'r gyfrol ar werth yn y Llythyrdy a Garej Tŷ Mawr ym Mhenrhyn-coch ac mewn unrhyw siop lyfrau am £9.95.



## Cylch Meithrin Trefeurig

Mae mis Rhagfyr yn amser prysur yn y cylch. Cawsom Ffair Nadolig yn y clwb pêl-droed, gydag ymweliad gan rhywun arbennig iawn, sef Siôn Corn! Er ei fod yn brysur ofnadwy amser yma o'r flwyddyn mae hefyd wedi addo dod nôl i'n gweld ni yn ein parti Nadolig cyn diwedd y tymor. Mae'r plant hefyd yn paratoi ar gyfer ein cyngerdd Nadolig ar Ragfyr 18fed. Mae nhw wrth eu boddau yn dysgu caneuon a gwisgo lan i actio Stori'r Geni. Diolch yn fawr i Mr Maldwyn

James am fod mor barod i helpu trwy gyfeilio i'r plant ar y piano.

Cawsom gyfle arall i wisgo lan ar ddiwrnod Plant Mewn Angen. Cododd y cylch £51 i'r achos.

Bydd pum plentyn yn ein gadael ard diwedd y tymor i fynd i Ysgol Penrhyn-coch. Pob lwc i Sian, Ava Mae, Lucy, Owen a Joe.

Rydym hefyd yn dathlu pen blwydd arbennig Mrs Gwenan Price ym mis Rhagfyr. Pob dymuniad da iddi oddi wrth plant, staff a rhieni y cylch.

Yn y llun gwelir y plant a'r staff wedi gwisgo lan ar ddiwrnod Plant Mewn Angen.

### Diolch

Dymuna Glenys a Henry Thomas, Cwmfelin, ddiolch i bawb o'r teulu a'u ffrindiau am yr anrhegion, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Ddiamwnt ar 22ain o Dachwedd, a hefyd am yr anrhydedd o dderbyn carden oddi wrth y Frenhines Elizabeth.

### Diolch yn fawr

Dymuna Molly Edwards, Glennydd, ddiolch o galon i bawb am eu dymuniadau gorau trwy dderbyn anrhegion, cardiau, galwadau ffôn ar achlysur ei phen blwydd yn 90 oed. Diolch yn fawr.[

### Merched y Wawr

Nos Iau, 8fed o Dachwedd, croesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein Llywydd Mair Evans. Fe longyfarchodd y parti llefaru am ddod yn ail yn Eisteddfod Powys. Fe aed ymlaen i drafod yr ohebiaeth a ddaeth i law, ac ambell i fater arall. Wedyn fe groesawodd ein gwraig wadd, sef Elizabeth Wyn un o'n haelodau ni ein hunain. Roedd wedi dod i'n diddori â phapur a glud. Fe gafodd pawb hwyl i ryfeddu wrth i bob un wneud bag gogyfer a rhoi anrheg Nadolig ynddo, neu unrhyw beth arall. I gychwyn fe ddangosodd i ni sut oedd gwneud y bagiau ac addurniadau Nadolig. Roedd Elizabeth Wyn yn amlwg yn gampwraig yn gwneud y pethau hyn. Yna cafodd pawb ei gyfle a chwarae teg fe wnaeth pawb ei orau, ac fe ddaeth pob un i ben a gwneud bag. Cafodd pawb fynd a'i fab gartref ganddynt. Noson hapus a hwylus dros ben. Diolchwyd i Elizabeth Wyn gan Megan Davies ac yna tynnwyd y raffl a chafwyd clonc a chwpanaid i ddiweddu'r noson. Cawn ni fel cangen ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Gwelir yma i roi naws y Nadolig y pennill a enillodd wobr i Mairwen gogyfer Carden Nadolig MyW 2012.

Wrth weld y seren glaer uwchben
A gawn ni heddiw gofio
Am faban bach a ddaeth i'n byd
I'n harwain a'n bendithio.

**Mairwen**

### Urdd y Gwragedd, Penrhyn-coch

Ruth Jên oedd y wraig wadd am y mis, cafwyd noson hwyliog yn ei chwmni. Adroddodd ei hanes o'r adeg y mynychodd yr ysgol ym Mhenrhyn-coch a thrwy ei hamser yn y coleg hyd at y presennol lle mae'n astudio am ei gradd M A. Arddangosodd tipyn o'i gwaith a chafwyd siawns i brynu rhai o'i nwyddau.

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 9 a 23 Ionawr. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.



Plant Clwb y Sul, Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch, yn y Gwasanaeth Carolau ar y 16 Rhagfyr.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Margaret Maddock, Caemelyn, ar farwolaeth Rowland Maddock. Bu Margaret a Rowland yn byw ym Mhenrhyn-coch yn y 1970au.

### Rygbi

Roedd yn dda gweld Rhodri Jones, Gwern Iago, Pennal - ŵyr Ken Evans, Coedgruffydd, yn chwarae rygbi i Lanelli ganol y mis.

## Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 16 Hydref 2012, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Edwina Davies, yn y gadair.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod mis Medi, ond gyda'r ychwanegiad fod y Clerc wedi gwneud cais am gymorth ariannol tuag at brynu cyfrifiadur newydd. Roedd y Cyngor wedi cytuno i gyfrannu traean y gost gan fod y Clerc yn gwasanaethu cynghorau eraill yn ogystal.

Materion yn codi o'r cofnodion: adroddodd y Cynghorydd Sir Dai Mason ei fod yn bwriadu cyfarfod swyddogion y Cyngor Sir yn fuan i drafod sawl mater perthnasol i drafnidiaeth, gan gynnwys y ffordd i Salem a'r ffordd ger Gogerddan. Roedd y Clerc wedi anfon llythyr i'r Brifysgol yn holi am y posibilrwydd o gael rhan o dir y Brifysgol er mwyn lledu'r ffordd rhwng Gogerddan a'r Groeslon. Roedd y Clerc hefyd wedi holi i berson archwilio hysbysfyrddau'r Cyngor i weld pa waith oedd angen ei wneud arnynt ond nid oedd wedi cael gwybodaeth bellach hyd yma. Adroddwyd fod Cyngor Ceredigion wedi gwrthod datgelu beth oedd gwerth Ysgol Trefeurig ar lyfrau'r Cyngor gan fod yr wybodaeth yn wybodaeth fasnachol sensitif. Adroddodd Eirian Reynolds fod y lampau yng Nger-y-llan wedi cael eu hailosod.

Adroddodd Edwina Davies iddi fynychu cyfarfod blynyddol Un Llais Cymru ym Mhontrhydfendigaid yn ddiweddar. Roedd Richard Owen wedi mynychu cyfarfod safle ar ran y Cyngor pan drafodwyd y cais cynllunio ar gyfer tai ar dir Pen-banc gyferbyn â thai Bryntirion.

Cais cynllunio newydd: estyniad yn 23 Glan Seilo – dim gwrthwynebiad.

Trafodwyd y trefniadau ar gyfer Sul y Cofio. Nodwyd fod y blwch postio yn Salem wedi cael ei symud o'i safle dros dro ond cafwyd sicrwydd y byddai yn cael ei ddychwelyd i'w le. Roedd y Cadeirydd wedi trwsio'r faner yn ddeheuig iawn a diolchwyd iddi am wneud; cynigiodd Eirian Reynolds fod yn gyfrifol am y faner.

# Myfyrdod y Nadolig

Gyda'r Nadolig yn brysur agosáu - a phawb yn prysuro i wneud y siopa munud olaf, ymweld â theulu, lapio anrhegion dwi am eich annog i eistedd lawr ac edrych unwaith eto ar ryfeddod hanes y Nadolig. Mae'n hanes mor gyfarwydd i bob un ohonom ni, ond un sydd wastad yn fy rhyfeddu.

Cwpl o flynyddoedd yn ôl, roedd rhaglen y 'Nativity' wedi cael ei darlledu ar sianel y BBC, ac wrth ei gwylio cefais olwg newydd ar yr hanes, a hynny drwy lygaid Mair. Roeddwn i wedi cymryd yn ganiataol fod Mair yn gwbl gyfforddus gyda phopeth oedd yn digwydd, wedi derbyn popeth fel ag yr oedd, ond na, roedd gan Mair ei hofnau hefyd. Dyma ddynes agos at Dduw, roedd Duw wedi ei dewis ar gyfer rhywbeth pwysig, ond eto, roedd hi yn union fel ni, yn profi ofn. Atgoffodd hyn fi o'r adnod yn Jeremeia 29 pan ddywed yr Arglwydd, "oherwydd myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer, bwriadau o heddwch, nid niwed, i roi ichwi ddyfodol gobeithiol." Roedd hyn yn wir i Mair, ac yn wir i ni heddiw. Trwy ein holl fywydau, gallwn fod yn sicr fod gan Duw fwriad da ar ein cyfer.

Dim ond Duw oedd yn gwybod beth yn union oedd am ddigwydd gyda geni Iesu, sef fod gobaith a heddwch yn dod i'n plith. Rwy'n siwr nad dyma oedd Mair yn ei deimlo gan amlaf, ond dyna'r gwirionedd. Ac mae'r un peth yn wir i ni heddiw. Mae Duw wedi gaddo'r gobaith yn ein bywydau ni, ac er nad ydym ni wastad yn ei deimlo, nac yn ymwybodol ohono oherwydd ein dewisiadau personol ni, mae cariad Duw ar gael i ni drwy'r adeg, yn aros amdanom gyda breichiau agored.

Felly, wrth i ni ddathlu'r Nadolig eleni, yng nghanol y gwledda, dewch i gofio mai dyma'r adeg y cyflwynodd Duw y gobaith gorau i'r byd, y cariad anhygoel, a'r cyfle i gael mwynhau bywyd yn ei 'holl gyflawnder'. (Ioan 10:10). Pa anrheg well sydd i'w gael nac i gael y sicrwydd o'r bywyd gorau posibl? Nadolig yma, dewch a derbyniwch yr anrheg gorau yna, sy'n para am byth, yr anrheg a ddaeth yn Iesu.

**Eleri Pierce Barder**



Addurniadau o eisin a wnaeth Eleri gyda phlant Ysgol Sul Horeb

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Pennau

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.

Gwasanaeth enwai tai ar lechen a llwyau caru. Deunyddiau gwnio, yn cynnwys offer DMC, Anchor, Heritage, Derwentwater ac eraill.
Ffôn: 01970 820122

ytincer@googlemail.com
y tince

# MADOG / DEWI / CEFN-LLWYD

**Gwasanaethau Madog**
**2.00 Rhagfyr**
23 J.E. Wynne Davies
30 10.00 Oedfa'r ofalaeth yn y Garn

**Ionawr**
6 Bugail
13 J. E. Wynne Davies
20 Bugail
27 Elwyn Pryse

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Dylan a Clare Davies, Brynawel, Cefn-llwyd, ar enedigaeth merch fach.

### Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Dei Evans, Deilyn am ei lwyddiant yn adran yr ŵyn yn Sioe Aeaf Llanelwedd.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu Deilyn ar golli modryb – Mrs Dilys Lloyd, Capel Seion;

ac â theuluoedd Gellinebwen a Rhos-goch ar farwolaeth Mrs A.M.E. (Nan) Hughes, Gellinebwen ar 6 Rhagfyr a hefyd ar golli perthynas yn Llandudoch.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Margaret Hughes, Gwarcwm Hen, sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

### Cyfarchion

Dolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda, ac anfonwn cyfarchion y tymor i rhai o'r ardal sydd mewn ysbytai a chartrefi'r henoed.

Siop
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

# Olion diddorol



Lluniau: © Hawlfraint y Goron: CBHC

Mae tywydd gwlyb y misoedd diwethaf wedi erydu'r mwd oedd yn gorchuddio gweddillion cwch sydd wedi gorwedd ar wely'r afon Leri ers yr 1860au.

Yn ôl Louise Barker, archaeolegwraig gyda Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. "Mae'r cwch yn un o dri yn yr ardal, a'r tri llongddrylliad wedi eu nodi ar fap y llynges yn 1892." Dywedodd na ddylai'r cyhoedd geisio archwilio'r gweddillion oherwydd eu bod mewn ardal lle mae'r llanw yn gallu bod yn beryglus iawn.

Bu'r Comisiwn a Phrifysgol Cymru Aberystwyth yn arbrofi yn ddiweddar gyda'r defnydd o dechnoleg sganio laser i gynorthwyo Cadw a Chyngor Cefn Gwlad Cymru i benderfynu ar y ffordd orau i fonitro y newidiadau naturiol sydd wedi golygu fod mwy o weddillion y tri chwch wedi dod i'r golwg yn ystod y ddwy neu dair blynedd diwethaf. Mae'r fyfyrwraig PhD Marek Ososinski a Louise Barker wedi gosod y sganiwr i fyny mewn nifer o fannau fel bod y gweddillion yn cael eu recordio mewn tri dimensiwn. Maent wedi dechrau prosesu y canlyniadau ac yn fodlon iawn gyda'r canlyniadau.

Er fod y fasnach lechi yn cael ei chysylltu yn bennaf gyda Gogledd Cymru a phorthladdoedd Porthmadog, Caernarfon a Bangor, chwaraeodd aber Afon Dyfi hefyd ran bwysig yn hanes allforio llechi. Cafodd yr ardal hwb sylweddol ym 1859 pan gysylltwyd chwareli ardal Corris â Derwen-las gan Reilffordd Corris, Machynlleth a'r Afon Dyfi.

Fe fu 'Llynges Derwen-las' oedd yn cynnwys slwpiau pren (blaen ac ôl wedi eu rigio gyda mastiau sengl) a sgwneri (deufast) a adeiladwyd yn Aberdyfi, Derwen-las, Garreg a Llugwy, yn gyfrifol am gludo deunydd ymlaen i gwsmeriaid oedd yn aros am lechi to safonol mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Gyfunol.

Ond daeth tro yn y fasnach lechi yn y 1860au. Teimlwyd y newid yn waeth yn Aber afon Dyfi gyda dyfodiad y rheilffordd ym 1864-9. Gwahanwyd y ceiau llechi yn Nerwen-las o brif sianel yr afon gan gobiau newydd y rheilffyrdd. Bu ymdrech i gynnal bywoliaeth y fflyd gan y cwmni rheilffordd trwy redeg seidin i bier llwytho llechi yng Ngherrig-y-penrhyn yng ngheg yr afon. Ond ni barodd y linell fwy na phum mlynedd yn wyneb costau cynnal sylweddol mewn safle mor agored.

Roedd yna iard fach adeiladu llongau yn Aberleri yn y 1840au, yn ôl Deanna Groom, Swyddog Morwrol y Comisiwn a gwelir gweddillion o ychydig lechi a physt angorfeydd pren. Mae damcaniaeth efallai i'r llongau gael eu gadael yn y fan hon fel rhywbudd i forwyr fod yna dro peryglus yn y sianel yma.

Byddai Deanna Groom (deanna.groom@rcahmw.gov.uk; ffôn: 01970 621 217) wrth ei bodd yn clywed gan unrhyw rai oedd â chysylltiad â'r diwydiant - tybed oes yna rai yn byw yn lleol oedd â pherthnasau yn gweithio yma neu sydd â straeon teuluol am y diwydiant. Mae enwau y tri chwch yn dal yn ddirgelwch.



## TREFEURIG



**TASHWEDD**

Dyma'r unig lun a dderbyniwyd o 'dash dyfwyd yn Nhashwedd! Casglodd Owen Roberts £150 i'r elusen. Mae'r tash wedi hen ddiflannu!

# Llwyddiant i ffilm

Cyhoeddwyd fod y cwmni o Ddenmark sydd yn gyfrifol am y gyfres deledu The Killing wedi prynu y gyfres dditectif sydd yn cael ei ffilmio yn Gymraeg a Saesneg ar hyn o bryd yn yr ardal hon.

Mae Comisiynwyr cwmni DR Denmark yn credu y bydd y golygfeydd o Gymru yn apelio i'w gwylwyr. Bydd y gyfres a elwir yn Mathias ar S4C a Hinterland ar y BBC yn cael ei darlledu y flwyddyn nesaf. Bydd Hinterland ar gael ar BBC Wales a BBC 4. Mae Aneirin Huws yn cymryd rhan ditectif yn y gyfres ac un arall o ardal y Tincer - a Lloyd Ellis (Huw Lloyd Jones - Lasynys gynt) yw Cyfarwyddwr Cyntaf Cynorthwyol y gyfres.

**Geiriau** | **Gweddillion** – Remains **Bywoliaeth** – Livelihood **Damcaniaeth** – Theory

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

### Gwasanaethau y Sul Capel Pen-llwyn

**Ionawr**
6 10.00 Y Parchg Wyn Rh. Morris
13 2.00 Dr John Tudno Williams
20 10.00 Y Parchg Ifan Mason Davies
27 10.00 Dr Gwyn Davies

### Merched y Wawr Melindwr

Dechrau mis Tachwedd cawsom gwmni Janice Jones Aberaeron, gwraig brysur iawn a oedd wedi dod a llond y Neuadd o waith llaw. 'Roedd wedi gwau gwasgod o flew ci ac wedi cael llawer o syniadau am wahanol fathau o waith llaw wrth iddi deithio'r byd. Croesawodd Beti Daniel bawb i'r cyfarfod a llongyfarchodd Heulwen Lewis,ein Llywydd, ar ddod yn fam-gu i Osian Rhys, mab bach Meinir a Huw yng Nghaerffili.Diolchwyd i Janice Jones gan Ann Davies a gwnaethpwyd y te gan Margaret Stephens a Beti Daniel. Dechrau Mis Rhagfyr Y Maes Capel Bangor oedd y gyrchfan i fwynhau ein Cinio Nadolig. Mynegodd Heulwen Lewis ei balchder o weld nifer o aelodau yn bresennol a oedd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar a llongyfarchodd Liz Collison ar ddod yn hen fam-gu. Croesawodd Heulwen hefyd ein gŵr gwadd, sef Glan Davies, - un sydd yn adnabyddus iawn am ei ddawn i ddiddanu ac am ei waith da yn codi arian i elusennau lleol. Cafwyd orig o'r llon a'r lleddf yn ei gwmni a diolchwyd iddo am noson ddiddorol iawn gan Llinos Jones. Diolchodd Llinos hefyd i staff Y Maes am eu croeso ac am y bwyd arbennig o dda.

### Cronfa Apêl y Llifogydd

Codwyd £1,158 .20 i'r gronfa uchod, fel canlyniad i daith gerdded cynorthwywyr Capel Bangor a'r cylch. Diolch i bawb a gyfrannodd, ac a gymerodd ran yn y cerdded.

Dymuniadau da i Mrs Margaret Dryburgh, Murmur y Coed, sydd heb fod yn hwylus iawn yn ddiweddar.

### Croeso 'nôl

Croeso 'nôl i Mr a Mrs Richard a Barbara Hogger, Plas Melindwr, sydd wedi bod i ffwrdd o'u cartref ers y llifogydd ym mis Mehefin.

### Cydymdeimlad

Estynwn ein cydymdeimlad puraf â Mr. a Mrs. Alun Jenkins a'r teulu, Pandy, ym marwolaeth eu brawd yng nghyfraith, Mr. Emyr Jones, Cwm Maethlon, ger Tywyn, Meirionydd. Atgofion melys amdano a'i ddiweddar briod Meira yn ymweld â ni yma ym Mhen-llwyn.



### Siop newydd

Braf gweld fod yna siop newydd Cymreig wedi agor yn Aberystwyth.

Ychydig cyn y Nadolig agorir drysau 'Y siop leol.co' yn 19 Heol y Wîg Aberystwyth.

Menter newydd ar y cŷd rhwng Siân Williams a Geraint Lloyd yw y siop, Siân yn byw yn Brynrheidol, Capel Bangor a Geraint o Ledrod sy'n lais cyfarwydd iawn ini gyd ar Radio Cymru, ac ar hyn o bryd yn cyflwyno ei raglen o nos Lun i nos Wener rhwng deg a hanner nos.

Mae'r siop yn gwerthu pob math o gynnyrch Cymreig o greision Jones, siytni ffarm Goetre i wisgi Penderyn, yn ogystal a hyn gellir prynu bara ffres a chacennau cartref.Bydd yna groeso hefyd i chi alw am baned a chacen.

Pob lwc i'r fenter a gobeithio eich gweld chi'n siopa yn 'Y siop leol.co' Aberystwyth.



Plant, rhieni ag athrawon Cylch Meithrin Pen-llwyn yn Nant yr Arian ar eu ffordd i weld Sion Corn. Diolch i'r Comisiwn Goedwigaeth am eu croeso twymgalon. Cofiwch gallwch weld y plant yn eu cyngerdd Nadolig am 10.30yb ar y 20fed Rhagfyr yn Neuadd Capel Bangor. Croeso i bawb

### Canu Carolau

Fe fu rhai marchogion lleol yn mynd o gwmpas Aberffrwd yn canu carolau i godi pres at Sioe Capel Bangor a'r cylch Codwyd £102 ac fe fydd yna grwp arall ar draed y tro yma yn mynd allan ar Nos Iau, Rhagfyr 20 yng Nghapel Bangor. Os ydych eisiau ymuno fe fyddant yn cwrdd ger yr ysgol am 6.30. Croeso cynnes i bawb.

**Iwan Jones**
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580



# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau, 29 Tachwedd yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Gynghorwraig Heulwen Morgan. Ar ddechrau'r cyfarfod cydymdeimlwyd â'r Cyng. Harri Petche a'r teulu ar farwolaeth ei frawd.

Trafodwyd materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol. Mae'r gwaith o uwchraddio rhan o ystâd Maesafallen wedi peidio dros y gaeaf, ond gobeithiant ailgydio yn y gwaith yn y gwanwyn. Gobeithir hefyd gweld traenio Cae Chwaraeon Tegerddan yn parhau, ond disgwylir cefnogaeth oddi wrth y Gwasanaeth Tân ac Ambiwlans. Mae'r awydd i gael cyfarpar chwarae ar gwrt chwarae Bryncastell yn gryf, a bydd y Cyngor yn gobeithio trafod prisiau gyda'r gwneuthurwyr yn fuan. Adroddwyd bod rhai o gysgodfeydd y bysiau yn yr ardal mewn cyflwr blêr, ond erbyn hyn deallir fod pethau wedi gwella - diolch i lanhawr anhysbys! Mae rhai meinciau wedi eu trwsio, ond llawer o waith i'w wneud ar rai eraill eto.

Yn adroddiad misol y Cyng. Paul Hinge, a ddarllenwyd yn ei absenoldeb gan y clerc, dywedodd ei fod wedi bod yn trafod yr ymddygiad anghymdeithasol yn ardal Tregerddan yn ddiweddar gyda'r Cyngor Sir, gan obeithio bod y broblem wedi ei gwyntyllu bellach.

Cynllunio: Cais i ddatblygu tir ger Clos Corwen, Clarach. Y tebygrwydd yw y bydd yn cael ei wrthod eto gan yr Adran Gynllunio, ac mae'r Cyngor yn cefnogi sylwadau y trigolion lleol.

Cais i godi tŷ ar ystâd Bro Nantcellan, Clarach. Darn yw hwn a glustnodwyd ar gyfer cwrt chwarae, a syndod yw nad ydyw wedi ei ddatblygu ers blynyddoedd bellach, a theimlir y dylid gwneud rhywbeth pendant o'r darn segur hwn. Cefnogir sylwadau y trigolion lleol.

Materion eraill a drafodwyd oedd, cwyn fod tyllau ym mhen uchaf y Lôn Groes, a bod dŵr yn sefyll fel llyn ar ddarn o'r ffordd ymhellach i fyny ger Pen-cwm. Mae hon yn broblem ers cyn cof gan rhai oedolion! Adroddwyd fod y llinell wen ar y ffordd o'r Borth sy'n ymuno â'r A487 yn Rhydypennau bron a diflannu, hyn yn golygu bod cerbydau yn y nos yn tueddu i anelu am linell wen canol y briffordd. Yn dilyn colli y blwch postio ym Mlaenddol, dywedwyd bod y Swyddfa Bost yn gorfod gwneud cais cynllunio i'w osod mewn lle mwy diogel ger y gymuned. Mae llygoden mawr ar waelod Maes Afallen, ond deallir bod y Pibydd Brith o Geredigion wedi talu ymweliad â hwy erbyn hyn.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 31 Ionawr, pryd y trafodir y gyllideb, a dosbarthu ceisiadau am gymorth ariannol i elusennau y cylch.

# Nadolig Llawen i holl darllenwyr y Tincer



# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

## Urdd y Benywod

Cafwyd dau gyfarfod diddorol iawn yn ystod y ddau fis diwethaf. Ym mis Tachwedd cafwyd noson o arlunio yng nghwmni Mike Laxton, Hafod y Glyn. Cawsom i gyd gyfle i ddangos ein dawn artistig a chafwyd llawer o hwyl yn defnyddio gwahanol decstiliau. Diolchodd Beti Daniel i Mike a Gill am baratoi mor drwyadl ar ein cyfer ac am noson ddiddorol iawn.

Dechrau mis Rhagfyr cafwyd gwledd o wahanol fwydydd wedi eu paratoi gan yr aelodau gyda chyfle i bawb gyfnewid rysetiau. 'Roedd y bwrdd yn llawn o wahanol fwydydd a bu pawb yn mwynhau eu hunain yn blasu ac yn trafod y cynhwysion. 'Roedd yn noson gartrefol iawn a phawb yn rhyfeddu at yr ystod eang o fwyd a oedd wedi ei baratoi.


**inc**

**Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.**

**Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion**

**13 Stryd y Bont**
**Aberystwyth**
**01970 626200**


Gŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur a'r Fro 2013

Gwahoddir ceisiadau i gyflenwi bwyd i'r cyhoedd ar ddydd Gŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur a'r Fro 2013, 9fed o Dachwedd 2013, yn Neuadd Pantyfedwen Pontrhydfendigaid. Rhaid wrth dystysgrif gyfredol Diogelwch a Hylendid Bwyd.

**Ateber erbyn y 1af o Fawrth 2013.**

Am ragor o wybodaeth, a thelerau, cysyllter â Jean Williams **01974 831685** neu Myfanwy Huws **01974 831627**


**Gwesty'r Llew Du**
**Black Lion Hotel**

Talybont, Ceredigion, SY24 5ER

Bwyty a Bar Newydd!

Cinio 12 - 2.30
Dau gwrs am £10 y person
Mercher i Sadwrn

Swper Nos 6 - 9
Mawrth i Sadwrn

Cinio Sul 12 - 3
Prydau o £9

Galwch heibio!

01970 832 555
www.gwestyllewdu.com



Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**

- C21 yn Morlan (7.30, 14 Rhagfyr a 9 Ionawr)
- Y Nadolig mewn Llun a Cherdd – arddangosfa o ddarnau celf a barddoniaeth (hyd 21 Rhagfyr)
- Noson Gwis Morlan (7.00, 16 Ionawr). Cyfle i dimau o gapeli ac eglwysi lleol gystadlu am Darian Her Morlan. Dewch i gefnogi neu gystadlu!

Manylion llawn ar wefan Morlan: www.morlan.org.uk

**CROESO CYNNES I BAWB!**

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

# BOW STREET

**Oedfaon y Garn 10.00 a 5.00**
**http://www.capelygarn.org/**
**Rhagfyr**
23 J.E. Wynne Davies Bugail
25 9.00 Oedfa gymun ar fore'r Nadolig
30 10.00 Oedfa'r ofalaeth
31 Gwylnos am 23.30 dan arweiniad y Bugail

**Ionawr**
6 Elwyn Pryse Cwrdd Gweddi
13 J. E. Wynne Davies
20 Bugail
27 Elwyn Pryse

**Noddfa**
**Rhagfyr**
23 Gwasanaeth Nadolig am 2.00
24 Oedfa Noswyl Nadolig am 11.30yh
25 Uno yn y Garn ar gyfer Oedfa Bore'r Nadolig
30 Uno yng Nghartref Tregerddan am 3.30



Nia Jones-Steele 13, Maes Afallen a Huw Bates o Rydyfelin ar achlysur eu priodas ym mis Awst yn Sydney, Awstralia. Mae'r pâr yn byw yn Aberystwyth lle mae'r ddau yn gyfreithwyr yng nghwmni Morris & Bates.

### Gwellhad buan

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Lila Piette, Llys Hedd sydd wedi anafu ei braich yn ddiweddar.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Ruth Eluned Evans, Trewylan, ar gael ei phenodi yn Rheolwraig Banc Santander, Aberystwyth. Pob lwc iddi yn y swydd newydd.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Harry a Janice Petche ar farwolaeth Ken - brawd Harry yn Abertawe ar 28 Tachwedd.

ac â Emlyn Rees, Bodowen, a gollodd ei frawd Cyril yn Crewe yn 85 oed - bellach dim ond Emlyn sy'n goroesi o chwe phlentyn D.O. ac Annie Rees, Morlais gynt. Ar ôl priodi Margaret Jones o'r dre ym 1954 bu Cyril a hithau a'r plant yn byw yn 25 Tregerddan, cyn symud i Crewe ym 1966 lle bu Cyril yn gweithio ar y rheilffordd cyn ymddeol. Ein cofion at y teulu yn Crewe ac at Emlyn.

### Nôl o Chubut

Croeso gartref i Lois Dafydd., Maes Afallen, o'r Gaiman, Ariannin. Bu Lois yn gweithio am y ddwy flynedd ddiwethaf i Fenter Patagonia lle bu yn hynod weithgar ac uchel ei pharch yn trefnu gweithgareddau a chynhyrchu cylchlythyr *Clecs Camwy* sydd i'w weld ar http://www.menterpatagonia.org/cymraeg/clecscamwy.php, Gobeithio na fydd oerni Cymru yn ormod o sioc ar ôl tywydd llethol yr wythnosau diwethaf yn Ariannin. Pob hwyl iddi yn ei gyrfa i'r dyfodol.

### Operation Christmas Child

Bu staff Cartref Tregerddan yn brysur yn llenwi bocsys ar gyfer Operation Christmas Child. Yn y llun gwelir Miss Kathleen Lewis yn derbyn y bocsys ar ran



Eddie a Bethan Jones sy'n trefnu casgliad lleol yng Nghapel y Garn.

### Ŵyr arall

Croeso cynnes iawn i Cai Hopcyn Boyce



Ar Dachwedd 8fed dathlodd Vi Jones ( gynt o Bow Street) ei phen blwydd yn 104. Yma gwelir hi gyda'i merched - Linda, Sue a Pat - yn y parti a gynhaliwyd ar Dachwedd 11fed yng Ngwesty Ramada, South Ruislip, Middlesex.

a anwyd yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd, ar Dachwedd y nawfed. Trydydd mab i Adrian a Rhian Heledd a brawd i Steffan a Tomos. Pedwerydd ŵyr i Gaenor a Gareth, Hafle.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Dai, Auriel, Mark a Ruth, Trewylan, ar farwolaeth Ruth Davies - modryb i Auriel - o Benrhyn-coch.
ac â Rob Pugh a'r teulu, Maes Ceiro, ar farwolaeth tad Rob ym Machynlleth.

### Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Steffan a Rachel, Bryndolen, ar enedigaeth mab bach, Jac Owen; brawd bach i Teleri a Leah, ŵyr bach arall i Mrs Janet Roberts.
Llongyfarchiadau i Mr Ieu a Glenwen Thomas ar enedigaeth ŵyr bach; mab i Catrin a Phil Evans – Iestyn Thomas. Pêl-droediwr bach arall i Bow Street!

### Pen blwydd arbennig

Dymuniadau gorau i Mrs Valerie Davies, Manteg, ar ddathlu pen blwydd arbennig diwedd mis Tachwedd a Mrs Ann Wyn Jones, Trem-y-ddôl, ddechrau Rhagfyr.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mr Vivian a Mrs Teresa Davies, Garn Villa a'r teulu ar golli mam Vivian yn ddiweddar. Cydymdeimlwn hefyd â'i frawd, sef Mr Brian Davies a'r teulu, cyn Brifathro Ysgol Rhydypennau.

### Merched y Wawr

Nos Lun, Tachwedd 12fed, croesawodd ein Llywydd, Mrs Brenda Jones, bawb i'r cyfarfod. Llongyfarchwyd dwy aelod, sef Janet Roberts ar enedigaeth ŵyr ac wyres fach, a Gaenor Jones ar ddod yn fam-gu i Cai, sydd yn byw yng Nghaerdydd.

Yna croesawodd Brenda, Bob Penwern atom, efo'i 'fandolin'. Wel am noson llawn hwyl. Gwisgodd Bob mewn gwisg oedd yn addas i'w dasg - côt wen a het! Dangosodd i ni beth gellid ei wneud efo 'mandolin' a 'nicer dicer' gyda storïau doniol yn cael eu hadrodd drwy'r cwbwl. Yna, yr uchafbwynt - 'banana flambé' - gyda chymeradwyaeth fawr pan welwyd y fflamau!! Cafodd pawb blatiad o flambé efo hufen iâ a hufen. HYFRYD. I gloi mi ddarllenodd ddwy gerdd gan Cynan.

Cafwyd paned i orffen wedi ei pharatoi gan Gwenda Edwards ac Ann Jones. Enillydd y raffl oedd Lynda Stubbs.

### Dau frawd, dau fabi

Dymuna Dylan a Helen, Steffan a Rachel, Siop Spar, Bow Street, ddiolch o galon am yr holl anrhegion, cardiau a dymuniadau da a dderbyniwyd ar enedigaeth eu plant. Gwerthfawrogwyd yn fawr iawn haelioni, caredigrwydd a chonsyrn pobl yr ardal. Ganed Evelyn Sofia Lois yn Ysbyty Singleton, Abertawe ar Hydref 23ain a Jac Owen, pythefnos yn ddiweddarach ar Dachwedd 6ed ym Mron-glais. Mae Fabien, Leah a Teleri wrth eu bodd efo'r babis bach.

### Capel y Garn - Ffair Nadolig

Fore Sadwrn Tachwedd 24ain cynhaliwyd Ffair Nadolig Capel y Garn a oedd wedi ei threfnu gan Gymeithas y Chwiorydd. Eleni, am y tro cyntaf, cynhaliwyd y ffair yn festri'r capel yn hytrach nag yn neuadd y pentref. Agorwyd y ffair gan Lynda a Wynne Melville Jones,ac yn ei anerchiad pwysleisiodd Wynne bwysigrwydd cymdeithasau sy'n gweithredu'n lleol.




Cyflwynwyd tusw o flodau i Lynda gan Lleucu a Besi James, Taigwynion. Wrth ddiolch i bawb ar y diwedd mynegodd y gweinidog, Y Parch Wyn Rh. Morris, werthfawrogiad arbennig o waith Shân Hayward, ysgrifenyddes Cymdeithas y Chwiorydd, a fu wrthi'n ddyfal yn dwyn y cyfan ynghyd. Rhwng bwrlwm y stondinau, yr amrywiol gystadlaethau, y byrddau te a choffi, a'r gwmnïaeth gyfeillgar, crëwyd naws gynnes i'n paratoi ar gyfer y Nadolig. Gwnaethpwyd elw anrhydeddus tuag at y Capel hefyd a diolch yn fawr i Fanc Barclays am chwyddo'r elw hwnnw.

### Te'r Chwiorydd

Cynhaliwydd Te Misol y Chwiorydd ddydd Mercher Rhagfyr 5ed, gyda Merched y Dolau yn paratoi'r te. Mrs Sue Davies,

Bob Penwern yn dangos ei ddoniau ym Merched y Wawr, Rhydypennau, gyda Joyce a Bet yn aros i weini.









Llandre, oedd y wraig wadd, ac ar ôl i Llinos Dafis ein harwain yn y defosiwn dechreuol cawsom awr ddiddig iawn yn gwneud addurniadau Nadolig deniadol a oedd o fewn cyrraedd y mwyaf anneheuig yn ein plith, a Sue, sy'n arweinydd Cylch Meithrin Rhydypennau, yn hen gyfarwydd â helpu'r arafaf. Roedd cyfle wedyn i brynu nwyddau masnach deg ar stondin a oedd wedi ei gosod yn ochor y bwrdd te. Gofynnwyd bendith ar y te gan ein Llywydd Y Parchg Judith Morris, ac er syndod mawr roedd anrheg ddirgel wedi ei lapio ar blat pawb.

### Prentis gyda Network Rail

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Stewart Gethin, sydd wedi ennill



prentisiaeth gyda Network Rail. Mae ar hyn o bryd yn derbyn hyfforddiant yn Gosport, ger Portsmouth; ym mis Mai bydd yn cael ei leoli ym Machynlleth yn bennaf ond yn dal i ymweld â Gosport pob hyn a hyn i gwblhau ei hyfforddiant. Daw'r hyfforddiant i ben ar ôl tair blynedd pan ddaw yn rhan o'r tîm gosod a chynnal trac yn yr ardal.

## Deli newydd



Mae deli newydd yn y pentref ers dechrau Rhagfyr! Agorodd Matt's Deli ar Ragfyr 4ydd ym Mhendre, Pen-y-garn (drws nesaf i siop y cigydd) gan Matt, ddaw o Dal-y-bont a Betty ddaw o'r Borth. Bu Matt - ddilynodd gwrs yng Ngholeg Ceredigion - yn gweithio yng Ngwesty'r Conrah. Ar ôl treulio rhyw saith mlynedd oddi cartref dychwelodd i'r ardal gan weithio yn Ultracomida ac yn ddiweddarach fel Rheolwr y Fferm Fêl yn Nhal-y-bont.

Darperir brecwast llawn rhwng 8 a 10 y bore; gellwch hefyd gael uwd moethus; gweinir coffi a chacennau, prydau bwyd cartref, baguettes ffres wedi'u llenwi; cawsiau blasus, cigoedd cartref ac olifau; cyffeithiau, cyfwydydd a basgedi bwyd. Gallent baratoi bwyd ar gyfer partïon, cyfarfodydd a digwyddiadau arbennig. Gellir bwyta yn y caffi neu brynu pryd barod. Maent ar agor rhwng 8 y bore a 5.30 y nos o ddydd Mawrth i ddydd Sadwrn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â info@mattsdellcafe.co.uk 07813 571 907

Yn y llun gwelir Betty, Milo Siencyn a Matt.

# Colofn Mrs Jones

A dyma ni, unwaith eto, ar drothwy'r Nadolig a blwyddyn arall wedi hedfan i rywle. Onid yw'n od pa mor hir yr ymddengys blwyddyn ar ei throthwy ym mis Ionawr a pha mor fyr yr ymddangys ar ei therfyn ym mis Rhagfyr?

Dyma gyfnod y partïon, wrth gwrs. Ni fum i erioed yn un dda am bartia, yn un peth, ni allaf ddawnsio, yn ail, y mae mân siarad cymdeithasol yn beth dieithr iawn i mi. Ac yn sicr ddigon, ni ddysgais y gamp parti mwyaf elfennol, medru dal gwydraid neu gwpaned a phlat a bwyta yr un pryd.Y mae'n rhaid i mi wrth fwrdd neu wneud un peth ar y tro!

Y mae fy myddardod, wrth gwrs, yn rhwystr enbyd i mi yn gymdeithasol yn enwedig mewn partïon anffurfiol. Mae gennyf ryw obaith mewn ciniawau. A wyddoch chi pam? Am nad oes, fel arfer, gerddoriaeth cefndirol ymwthiol yn y rheini, pan gyfunwch chi sŵn mân siarad a cherddoriaeth uchel, mae'n amhosibl i mi glywed beth ddywed neb wrthyf. Ar ben hynny, nid yw pobl sydd yn cynnal dinner parties yn gweiddi ar draws ei gilydd nes boddi'r sgwrs ydech chi yn ceisio ei chael. Effaith hyn oll yw mai rhyw sefyll ar y cyrion y byddaf fi mewn partïon,yn hanner ofni sylw neb ond yn ymwybodol iawn fy mod yn ymddangos yn greadur balch ac anghymdeithasol.

Diolch i'r drefn, mae o hefyd yn gyfnod cyhoeddi llyfrau a byddaf bob amser yn ceisio prynu llyfr neu ddau dros yr ŵyl. Eleni prynais *Gwreiddyn Chwerw* gan Jerry Hunter, *Ifan Jones a'r Fedal Gee* gan Harri Parri, a *Ffowc o Flwyddyn* gan Eilir Jones. Nid wyf eto wedi darllen y rhain oherwydd prynais un arall, sef dyddiaduron Richard Burton, doorstop o lyfr os bu un erioed a darlun difyr iawn o'i fywyd gyda Elizabeth Taylor. Dyma, mi dybiaf, y celebs cyntaf yn yr ystyr fod eu bywydau yn y papurau newydd lawn gymaint ac yn eu cartref ac yn yr ystyr mai dyma'r ddau a osododd seiliau gwario ofer y rhan fwyaf o celebs. Mi ryden ni i gyd, wedi'r cyfan, yn cofio diemwntiau Elizabeth! Eto, nid eu perthynas gymhleth a'm synnodd i ond eu bywyd deallusol, efallai nad oedd hynny yn syndod gyda Burton ond y mae darllen am yr hyn a ddarllenai Elizabeth a'i hymateb iddynt yn brawf fod ganddi hithau, hefyd, feddwl chwim a chraff.

Felly, dyna lle y byddaf i dydd Nadolig, ar ôl cinio ac agor f'anrhegion, fe setlaf i lawr gyda'm llyfrau cyn y bydd hi yn amser Call the Midwife a Downton. Un o fanteision prin bod fy hun dros y Dolig yw cael gwylio beth fynnaf i fy hun ar y teledu!

A gobeithio y cewch chi i gyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.

**Nadolig Llawen i holl darllenwyr y Tincer**



# GOGINAN

### Pen blwydd Arbennig

Pen blwydd hapus i Sioned Jones, Yr Hafan, Cwmbrwyno ar ei phen blwydd yn ddeunaw oed ar Ragfyr 14. Pob lwc iddi i'r dyfodol.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda John Saycell, Glascoed, a Dai Saycell, Bryn Briallu, a'u teuluoedd ar farwolaeth ei brawd yn ddiweddar.

Trist hefyd yw cofnodi marwolaeth Derek Knight, 2 Arosfa, ond misoedd ers i'w wraig Lucia farw. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

### Capten Newydd

Llongyfarchiadau i Mark Evans, Gwarllan, ar ei benodiad yn Gapten Clwb Criced Aberystwyth am y tymor nesaf. Gobeithio y cânt dywydd braf haf nesaf i chwarae ac i fod yn llwyddiannus.

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Lisa Saycell, Brynbriallu, ar ei dyweddiad â Rhydian Evans o Dregaron.

### Hen Dractor

Llun o Bryn Price, Panteg ar ei dractor yn gwneud un o'i deithiau elusenol yn Llanfihangel- y- Creuddyn lle cafodd wobr. Mae Bryn a'i wraig Lynette yn teithio milltiroedd yn ystod y flwyddyn yn cefnogi achosion da drwy deithio yn y tractor. Y sôn yw y bydd gan Bryn gystadleuaeth y flwyddyn nesaf gan fod yna dractor arall wedi cyrraedd y pentref.

### Crefftau Cymdeithas Gymunedol Goginan

Cynhaliwyd y Ffair Grefftau yn yr hen garej a daeth amryw yno i gefnogi. A chan bod ganddynt ei 'Town Cryer' fe wnaeth un neu ddau gar dieithr stopio i fynychu y digwyddiad. Codwyd dros £200 o bunnoedd sydd yn ddechrau da i gronfa Cymdeithas Gymunedol Goginan. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i John am ei waith yn cyhoeddi y digwyddiad, i Lewis yn y Druid am gael defnyddio'r cyfleusterau ac i bawb fu yn gweithio yn caled yn drefnu cyn ag ar ôl y diwrnod.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Rhodri a Branwen Davies, Gwalia, Llywernog. ar enedigaeth merch fach - Alaw Lois - chwaer fach i Swyn.

### Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Jane Jones, Yr Hafan, ar ôl iddi dderbyn triniaeth yn Ysbyty Bron-glais.

Hefyd ein dymuniadau gorau i Hollie Evelyn, merch fach Simon a Katy Bevan, Miramar sydd hefyd wedi treulio amser yn yr ysbyty yn ddiweddar.







# DÔL-Y-BONT

### Grŵp Trigolion Dôl-y-bont

Yn dilyn y difrod a'r llanast a ddigwyddodd yn y pentref adeg y llifogydd 6 mis yn ôl, mae'r trigolion wedi penderfynu sefydlu Grŵp Trigolion Dôl-y-bont. Pwrpas y grŵp fydd ceisio gwneud yn siwr na fydd y fath ddinistr yn digwydd eto ac i sicrhau fod y pentref yn cael ei dacluso a'i dwtio ar ôl y lligogydd diwethaf.

O dan gadeiryddiaeth Judith Watson, Tŷ Newydd, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp yng Nghapel y Babell nos Fawrth, 4 Rhagfyr, a daeth 2 gynrychiolydd o Asiantaeth yr Amgylchedd ac 1 o Gyngor Ceredigion i annerch. Cafodd y trigolion gyfle i ddatgan eu pryder a'u gobeithion y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yr dod a gwneud gwaith clirio a glanhau gwely'r afon ac y bydd Cyngor Ceredigion yn rhoi mwy o ofal i'r gwteri etc sydd yn rhedeg drwy'r pentref.

Yng nghyfarfod nesaf y grŵp bydd swyddogion yn cael eu hethol i redeg y fenter newydd hon.




newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

**M THOMAS**
**Plymwr Lleol**
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
**07968 728470**
**01970 820375**

ytincer@googlemail.com
y tincer

JONATHAN JAMES LEWIS
Saer Coed
Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

# Bedydd tân

Mae 6 mis bellach wedi pasio ers i mi gael fy ethol yn gynghorydd dros blwy' Trefeurig, ac felly dyma gyfle bach i roi rhyw syniad i chi o'm profiad fel cynghorydd mor belled.

Y cwestiwn cynta' mae'r rhan fwyaf yn holi i mi yw 'sut mae'n mynd Dai?'

Cwestiwn da – mae'n anodd iawn i mi ei ateb a dweud y gwir oherwydd mae'r rôl yma'n un mor newydd i mi. Dwi'n credu bellach fod pethe'n mynd ar y trywydd iawn, a minnau'n ymgyfarwyddo gyda'r swydd, gyda'r prosesau, ac wrth gwrs, gyda'r wleidyddiaeth sy' ynghlwm wrth bopeth.

Un o'r penderfyniadau cyntaf i mi orfod gwneud yn fuan iawn ar ôl yr etholiad oedd i ba gyfeiriad yr oeddwn i am roi fy hun o fewn y cyngor – a hyn gan wybod yn iawn y buasai fy mhenderfyniad yn debygol o ddylanwadu'n gryf ar ba grŵp fuasai'n arwain y cyngor. Bu'n gyfnod llawn cyffro, a bum wrthi'n ddiwyd yn gofyn i'r grwpiau gwahanol sut y bydden nhw'n medru bod o fudd i blwy Trefeurig. Yn y diwedd, penderfynais i ac aelod annibynnol arall, Dafydd Edwards, cynghorydd Llansantffraid i greu grŵp 'Llais Annibynnol', grŵp annibynnol heb faniffesto, ac wedyn penderfynu y buasai'r grŵp yma'n ffurfio 'glymblaid' o fath efo Plaid Cymru – a hyn wrth gwrs yn rhoi y mwyafrif angenrheidiol i'r Blaid i arwain y cyngor. Mae Dafydd a minnau'n hollol argyhoeddedig fod y penderfyniad wedi bod yn un cywir. Yn wir, wedi i ni benderfynu ymuno yn y glymblaid efo Plaid Cymru (penderfyniad a oedd eisoes wedi rhoi'r mwyafrif i'r Blaid i arwain y cyngor), mi wnaeth y grŵp Annibynnol arall benderfynu ymuno hefyd. Rwy'n hynod falch fy mod wedi gwneud y penderfyniad yma pan y gwnaethom ni, a sicrhau'r arweinyddiaeth orau yn fy marn i o fewn y cyngor ar gyfer ein plwyf.

Wrth gwrs, golyga hyn hefyd fy mod i fel cynghorydd dros blwy' Trefeurig yn gynghorydd ar yr ochr sy'n arwain, yn hytrach na'n gynghorydd ar yr ochr sy'n gwrthwynebu.

Wedi i'r bennod yna yn ystod y pythefnos cynta' o'r cyngor gael ei sortio, daeth hi'n amser i gydio yn y gwaith, a buan iawn daeth her anhygoel i'n plwy' ni.

Feddyliais i erioed y buaswn yn gweld ein hardal o dan gymaint o ddŵr. Ond do, mi ddaeth y dilyw, a nifer o'n ffyrdd a'r nentydd bach yn edrych fel afonydd nerthol.

Gwelwyd pontydd yn cael eu difrodi'n llwyr, glannau nentydd ac afonydd yn diflannu, a nifer o gartrefi yn cael eu gwlychu a'u difrodi'n llwyr. Mi gefais sawl cais am gymorth, a sawl galwad yn nodi problemau ac anghenion brys. Rwy'n gobeithio fy mod wedi gallu ateb y gofynion yma, ac er efallai fod fy ffordd o ddelio gyda'r nifer o sefyllfaoedd braidd yn anghyffredin yn llygaid y cyngor, rwy'n credu fod y rhan fwyaf o'r sefyllfaoedd wedi eu sortio mor fuan ag oedd yn bosib ar y pryd.


Yn wir, feddyliais i byth y buaswn ymhen ychydig wythnosau o gael fy ethol yn delio gyda'r Cynulliad, Asiantaeth yr Amgylchedd, ac hyd yn oed y Fyddin.

Rwy'n dal i weithio'n agos gyda Asiantaeth yr Amgylchedd ar rai sgîl effeithiau o'r llifogydd, ac wedi gallu trefnu pont newydd ym Mhen-bont Rhydybeddau, gwelliannau i lannau'r afon ym Mhenrhyn-coch a Chwmdarren, ac hefyd wedi gallu helpu gŵr a gwraig i gael llety dros dro wrth ymyl eu cartre a ddifrodwyd ym Mrogynin.

I mi, bu'n gyfnod o fedydd tân a dweud y lleia'.

O ran y gwaith 'arferol' gyda'r cyngor, mae gen i gyfrifoldebau eraill sy'n perthyn i rôl cynghorydd. Mae'n ofynnol i mi eistedd ar nifer o bwyllgorau – rhai ohonynt efo enwau sy'n hollol ddiystyr i mi – megis '*pwyllgor trosolwg a chraffu cymunedau sy'n dysgu*' – neu mewn geiriau eraill, pwyllgor 'addysg i bawb'. Rwy' hefyd ar bwyllgor trwyddedau sy'n gyfrifol am drwyddedu tacsis, safleoedd gwersylla,

*Salem Soldier*
Awdur: *Elfed a Brian Davies*
Cyhoeddwyd: Tachwedd 2012
Categori: Hanes Lleol a Chymdeithasol. Y Lolfa Pris £9.95




Hunangofiant am blentyndod ym mhentref bach Salem yng ngogledd Ceredigion a gorfodaeth filwrol ddilynol i'r lluoedd arfog yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae Elfed Davies yn disgrifio ei fywyd fel milwr ifanc drwy ei hyfforddiant, ac yna ymlaen i anialwch gogledd Africa. Mae'n traethu ei brofiad yn yr Eidal cyn ddod yn ôl i Geredigion fel gŵr ifanc wei priodi. Mae ei fab Brian yn rhoi hanes am fywyd ym mhentref Penrhyn-coch yn y 50au a 60au. Mae *Salem Soldier* yn rhoi cipolwg ar hanes a chymdeithas ym mywyd cefn gwlad yn nghanolbarth Cymru. Mae'n lyfr am amser gwahanol i fywyd prysur heddiw.

Yn cynnwys nifer o luniau gwreiddiol a hanesyddol.
Ar gael yn awr mewn siopau lleol a gwerthwyr llyfrau ar wefannau.

clybiau, tafarnau ac ati, ac hefyd pwyllgor cymunedau ffyniannus.

Rwy'n teithio i gyfarfodydd cyffredinol yn ogystal a chyfarfodydd pwyllgor ym mhencadlys y cyngor yn Aberaeron ryw ddwy / dair gwaith yr wythnos ar gyfartaledd, ac rwy wrth gwrs hefyd yn defnyddio'r amser yma i drafod materion lleol efo fy nghyd gynhorwyr sy'n eistedd ar bwyllgorau eraill, ac hefyd trafod materion lleol gyda'r swyddogion priodol a fuasai'n delio gyda'r materion yna. Mae'n waith diddorol, ac yn agoriad llygad o weld y prosesau sy'n cael eu defnyddio yn rhediad dydd i ddydd y cyngor.

Ond, y pwyllgor pwysicaf rwy'n mynychu yw pwyllgor cymuned plwyf Trefeurig. Mae'n gyfle i mi gael darganfod yn ffurfiol broblemau ac anghenion ein plwyf ni o lygaid y ffynnon – sef ein cynghorwyr plwy' yn Nhrefeurig.

Mae'r pwyllgor yma wrth gwrs yn cyfarfod yn achlysurol yn adeilad ysgol Trefeurig – adeilad sydd a'i ddyfodol o dan fygythiad. Rwy'n falch iawn fy mod wedi gallu sicrhau estyniad o 9 mis ar gyfer unrhyw ymgyrch i godi arian cyn bo'r ysgol yn cael ei rhoi ar werth gan y cyngor, felly nawr gyfeillion rhaid ystyried o ddifri beth yn union yw dyheadau y bobl leol dros yr adeilad hyfryd yma. Os yw'r ewyllys yno yn y gymuned i'w defnyddio'n gyson, yna mae angen rhoi'r dyhead a'r ewyllys yma ar waith.

Rhywbeth arall sy' ar feddyliau nifer fawr yn yr ardal yw fferm wynt Nant-y-moch. Er nad oes llais uniongyrchol gyda Chyngor Ceredigion yn y cynllun, trefnwyd cyfarfod gan Ellen ap Gwynn fel bo' cynghorwyr yr ardaloedd cyfagos, sef Rhodri Davies (Melindwr), Ellen ap Gwynn (CeulanamaesMawr), a minnau yn cael y cyfle i gael gwybod mwy am y cynllun gan y swyddogion sy'n gyfrifol amdano. Mae'n bur debyg y gall ein cymunedau elwa o'r gronfa gymunedol a fydd yn cael ei sefydlu os aiff y cynllun yn ei blaen, ond wrth gwrs, mae'n ddyddiau cynnar eto a does dim sicrwydd hyd yn hyn os aiff y cynllun yn ei flaen neu peidio.

Ac i orffen, cwestiwn mawr arall gyda'r Gaea'n agosau yw busnes y gritio. Rwy' wedi bod mewn cysylltiad gyda'r penaethiaid yn yr adran sy'n gyfrifol am yr halen, ac er na allai ddatgan unrhyw lwyddiant mawr sylweddol ar gyfer y gaea' yma, cafwyd addewidion gan swyddogion yr adran ar gyfer newidiadau a gwelliannau yn y drefen ar gyfer y gaea' nesa i ardal plwy'Trefeurig. Rwy'n siomedig iawn na allai addo mwy i chi am y gaea' yma, ond mae'r broses o greu newid mewn system sir-eang yn broses hir, a nifer fawr o ardaloedd eraill hefyd o fewn ein sir hefyd yn galw am fwy o'r graean. Cofiwch gysylltu â mi os oes gennych chi bryderon am hyn.

Yn ystod y misoedd cyntaf yma, rwy wedi cael fy mhlesio'n fawr gan barodrwydd fy ngyd-gynghorwyr, a nifer o swyddogion y cyngor i roi arweiniad a chymorth pan fo'i angen. Mae' eu parodrwydd i agor drysau a gwrando arna i fel cynghorydd yn galonogol iawn, a braf iawn yw nodi fod nifer o bethau yn digwydd er lles ein plwy'.

Mae'r 6 mis diwetha wedi hedfan am sawl rheswm, a nawr, a minnau efo bach mwy o brofiad fel cynghorydd, rwy' am ddiolch i chi am eich cefnogaeth a'ch amynedd. Mae'n bleser cael cynrychioli bro fy mebyd fel cynghorydd, ac yn bleser cael bod yn rhan o gyngor sy'n rhedeg yn hwylus dan arweiniad da.

Cofiwch fod croeso i chi gysylltu â mi os oes problem neu angen am gymorth arnoch gen i, neu gan y cyngor. Dyna pam dwi yma, a dyna paham yr etholwyd fi.

Pob hwyl

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion ardal y Tincer.

Dai.

Cwmisaf, Cwmsymlog
828128 dai.mason@ceredigion.gov.uk



# Adolygiad

Elystan Morgan
*Elystan - Atgofion Oes*
Y Lolfa 285t. £12.95

Mae cymuned fechan Dolau yn gyforig o dalentau amrywiol - yn ysgolheigion, cerddorion, awduron a gwleidyddion, a llawer mwy. Y gwleidydd amlycaf o bell ffordd yw'r Arglwydd Elystan-Morgan ac y mae ef, ynghyd ag ysgolhaig ifanc disglair a fagwyd yn y gymuned, Dr Huw Williams, wedi mynd ati i lunio cyfrol hynod ddifyr yn dwyn y teitl . Nid hunangofiant cyflawn yw hwn ond ffrwyth cyfres o gyfweliadau anffurfiol. Serch hynny, i raddau helaeth, mae'r gwleidydd wedi bod yn gwbl agored a pharod i fynegi ei deimladau ar ei yrfa ac am y sefyllfa yng Nghymru ddoe a heddiw.

Efallai'r darnau mwyaf difyr yn y gyfrol i ddarllenwyr yw'r rhai am ei fagwraeth ym Mhen-y-garn, ac yn arbennig am ei dad, y Prifardd Dewi Morgan. Mae'n amlwg fod yr Elystan ifanc yn llanc drygionus ond roedd hefyd wedi'i drwytho yn yr hyn a oedd orau ym mhentrefi cefn gwlad yn y blynyddoedd a fu.

Fel pob gwleidydd, mae'n ceisio cyfiawnhau rhai penderfyniadau anodd a wnaed ganddo dros y blynyddoedd. Y mae'n ymhyfrydu yn y gefnogaeth a gafodd gan etholwyr cyffredin Sir Aberteifi (nid Ceredigion) yn 1966 ac wedi hynny, ond nid yw'n ymhelaethu ar y gefnogaeth a gawsai gan elfennau gwrth-Gymreig o'r Coleg a chyrff tebyg a frwydrai yn erbyn llawer o'r delfrydau a gredai ef yn angerddol ynddynt.

Un o'r geiriau a ddefnyddia'n aml yw 'sifalri' (neu i chi a mi), a hawdd fyddai gweld yr Arglwydd Elystan yn ei arfwisg ar gefn ei farch neu ger y ford gron yn dadlau achos. Yn sicr byddai hanes ei yrfa wleidyddol yn destun chwedl Arthuraidd dda.

Rhaid llongyfarch y ddau wron o'r Dolau am greu cyfrol mor ddarllenadwy, heb anghofio cyfraniad Iestyn Hughes, Bow Street, am ei bortread gwych ar y clawr. Mae'r llygaid yn dweud cyfrolau.

**Gwyn Jenkins**

# O'r Cynulliad – Elin Jones

Fis diwethaf yn y Cynulliad, codais y ffaith fy mod yn bryderus iawn nad oes yn awr gwelyau argyfwng ar gael ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl rhwng yr M4 a'r A55 ers i ward Afallon gau yn ysbyty Bron-glais. Gan nad ydym eto yn gwybod pryd y bydd ward Afallon yn ail agor, mae yna fwlch yn y ddarpariaeth leol ac nid ydyw'n cael ei ddiwallu. Rwyf wedi holi Carwyn Jones i ymyrryd ar y pwynt pwysig hwn a chodi'r mater gan y Bwrdd Iechyd Hywel Dda a gobeithiaf yn fawr y bydd yn gwneud hynny.

Newyddion trist oedd clywed am y difrod a grëwyd gan y llifogydd yn Aberteifi. Mi es i lawr i Aberteifi i gwrdd â'r Cynghorwyr sir leol, John Adams-Lewis a Catrin Miles ynghyd ag ychydig o drigolion y dre i weld y difrod dros fy hun. Yn sgîl y cyfarfod hwnnw, fe drefnais ail gyfarfod safle yn y dre, y tro hwn gyda chynrychiolydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn bresennol, er mwyn iddo weld y difrod ac i drafod pa gamau y gellid eu cymryd i osgoi sefyllfa o'r fath yn y dyfodol.

Mae yna drafodaethau wedi bod ers blynyddoedd bellach ynghylch adeiladu canolfan iechyd newydd yn Nhregaron. Pwrpas datblygiad Cylch Caron fyddai cyfuno gwelyau a thriniaethau'r ysbyty, gwelyau gofal preswyl, meddygfa a thai ar yr un safle yng nghanol tref Tregaron. Erbyn hyn, mae'r cynlluniau wedi derbyn caniatâd cynllunio amlinellol ond rydym dal yn aros am sêl bendith y gweinidog iechyd. Rwyf wedi codi'r mater hwn gyda hi droeon ac rwy'n gobeithio na fydd yna lawr mwy o oedi.

Yn olaf, rwy wedi dechrau arolwg er mwyn dod o hyd i'r ardaloedd yng Ngheredigion sydd ar hyn o bryd yn derbyn cyflymder band llydan gwael neu mewn rhai achosion, sydd yn methu derbyn band llydan o gwbl. Rwy'n gobeithio casglu gwybodaeth am y cyflymder sydd yn cael ei derbyn ar hyn o bryd mewn pob rhan o Geredigion.



Mi fyddaf yna'n cyflwyno'r data i Lywodraeth Cymru. Mae croeso i unrhyw un rhoi gwybod i mi beth yw cyflymder eich band llydan drwy fy e-bostio ar elin.jones@cymru.gov.uk neu ffonio fy swyddfa ar 01970 624 516.

**Tocynnau:**
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
01970 623232
aberystwythartscentre.co.uk
£15/£12


Mewn partneriaeth â Canolfan Celfyddydau Aberystwyth, S4C a Green Bay Media a gyda chydweithrediad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Prifysgol Morgannwg, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Arad Goch.

Perfformiad unigryw am un diwrnod yn unig i ddathlu hanner can mlynedd ers protest enwog Pont Trefechan.

Bydd Y Bont yn gwau trwy strydoedd Aberystwyth yn plethu theatr byw a technoleg ddigidol ac yn ymweld a chaffis y chwyldro gan ddod â'r presennol a'r gorffennol ynghyd i greu un perfformiad bythgofiadwy.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.theatr.com
#YBont




# Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Cystadlu

Llongyfarchiadau i holl blant Cyfnod Allweddol 2 a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Trawsgwlad Cylch Aberystwyth yn ddiweddar. Hefyd i'r disgyblion a fu'n nofio yng ngala nofio'r Urdd ar 14eg Tachwedd. Llongyfarchiadau arbennig i dîm pêl-droed yr ysgol am ddod yn 3ydd yng nghystadleuaeth pêl-droed 5 bob-ochr yr Urdd yn Llangrannog ar 3ydd Rhagfyr. Da iawn bawb!

### Perfformio

Bu plant yr ysgol yn diddanu aelodau Cymdeithas yr Henoed yn neuadd yr ysgol brynhawn dydd Iau, Tachwedd 15fed, gan ganu caneuon ac adrodd. Derbyniodd yr ysgol rodd o £30 gan Gymdeithas yr Henoed. Diolch yn fawr iawn iddyn nhw am gefnogi'r ysgol.

### Plant Mewn Angen

Bu'r disgyblion yn brysur ar ddiwrnod Plant mewn Angen yn coginio ac addurno bisgedi Pudsey, gwisgo i fyny a chynnal gweithgareddau codi arian.

### Diolch

Ar nos Wener, Tachwedd 23ain, bu'r disgyblion yn canu yn noson wobrwyo Carnifal y Borth. Derbyniodd yr ysgol siec am £1,000 gan bwyllgor y carnifal. Hoffai'r plant, staff, llywodraethwyr a'r rhieni ddiolch o galon i'r pwyllgor am ei rhodd garedig ac am ei gwaith called yn ystod y flwyddyn.

### Ymweliadau

Cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 amser bendigedig yn coginio ar y 'Bws Coginio' bore dydd Iau, Tachwedd 15fed. Bu'r plant yn coginio tatws trwy'i chrwyn a pharatoi salad ffrwythau iachus a blasus.

Cafodd y disgyblion amser bendigedig yn ymweld â Chanolfan Deuluol y Borth a Blue Island Ceramics ar 27ain Tachwedd. Daeth y plant at ei gilydd er mwyn cynhyrchu 'print llaw ar deilsen' gyda Zara o Blue Island Ceramics. Ein bwriad ni yw creu murlun gyda'r teils yn neuadd yr ysgol yn cofnodi cyfnod y disgyblion yn Ysgol Craig yr Wylfa. Bydd hwn yn atgof hyfryd i'r plant mewn blynyddoedd i ddod o'i amser hapus yn yr ysgol.

### Gweithdy Ynni

Cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 'Gweithdy Ynni' gan weithwyr o Gyngor Sir Ceredigion ar fore Llun, Rhagfyr 3ydd. Bu'r gweithdy yn addysgiadol dros ben ac roedd yn help i ni ddeall faint o egni rydym yn defnyddio pob dydd. Ar y beic, gwelwn Josh yn pedalu'n gyflym er mwyn cynhyrchu digon o ynni i bŵeri bwlb golau. (Roedd hi'n waith anodd!) Bu'r disgyblion yn cynhyrchu Cynllun Gweithredu i'r ysgol er mwyn cynorthwyo'r ysgol i leihau ar wastraff ynni. Diolch yn fawr i Tim Brew, Bethan Lloyd Davies a Polly Seaton am gynnal y gweithdy.

### Canu Carolau yn Morrisons

Yn dilyn llwyddiant y llynedd, fe drefnwyd CRHA yr ysgol bod y disgyblion yn ail-ymweld ac archfarchnad Morrisons yn Aberystwyth ar 4ydd Rhagfyr i ganu carolau er mwyn codi arian i'r ysgol. Cawsom amser hyfryd yna a hoffwn ddiolch yn fawr iawn i staff Morrisons am y croeso cynnes, hefyd i bawb wnaeth gyfrannu arian tuag at yr ysgol. Nadolig Llawen!

### Ffarwelio

Wrth i ni groesawu Mrs Edwards yn ôl i'r ysgol wedi ei chyfnod mamolaeth, rydym yn ffarwelio â Miss Francis sydd wedi bod yn dysgu plant y Cyfnod Sylfaen yn ei habsenoldeb. Diolch yn fawr iawn i Miss Francis am ei gwaith caled a phob dymuniad da i'r dyfodol.

### Comenius

Mae plant yr ysgol wedi bod yn creu cardiau Nadolig ar gyfer ein partneriaid ysgol a'u postio i'r gwledydd gwahanol ar draws Ewrop. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!











# Ysgol Penrhyn-coch

### Ffair Aeaf

Aeth criw bach o ddisgyblion yr ysgol ati i gystadlu yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd. Llongyfarchiadau i bawb enillodd wobr.

### Cyngerdd Nadolig

Llongyfarchiadau i'r disgyblion ar eu gwaith caled yn y Sioeau Nadolig. Cafwyd perfformiadau i'r Gymuned ar y prynhawn dydd Mawrth a chafwyd criw da yn dod i wylio. Diolch i bawb a ddaeth. Cafwyd tri pherfformiad wedi'r nos. Y sioeau eleni oedd "Llythyr i Sant" gan y Cyfnod Sylfaen a "Pobl Doeth y Lleuad" gan Gyfnod Allweddol 2. Daeth criw da iawn i wylio'r disgyblion wrthi yn perfformio. Diolch i bawb a fu ynghlwm yn y sioeau. Diolch i'r rhieni am eich gwaith yn paratoi y gwisgoedd ac yn cefnogi gyda dysgu'r geiriau. Trefnwyd raffl arbennig ar gyfer y noson olaf a chafwyd nifer o wobrau arbennig gan gynnwys troli o nwyddau amrywiol.

### Cyngerdd Ger y Lli

Ar nos Wener cyntaf y mis, bu côr yr ysgol yn cymryd rhan mewn cyngerdd Nadolig ym Eglwys Llanbadarn. Cyngerdd Nadolig Côr Ger y Lli oedd yr achlysur a gwelwyd yr Eglwys yn llawn. Yn cymryd rhan hefyd gwelwyd Côr Ysgol Llanilar. Bu'r disgyblion yn canu tair cân fel côr yn ystod y cyngerdd ac yna cyfunodd y tri chôr fel un ar y diwedd i ganu Haleliwia a Siahamba. Diolch i Gôr Ger y Lli am y roi y cyfle i'r Côr i gymryd rhan. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi y noson ac i'r rhieni am ddod i wrando.

### Llongyfarchiadau

Ar ddechrau'r mis, cafwyd newyddion arbennig. Yn dilyn anfon copi o'n Cryno Ddisg i Banel Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, derbyniwyd gwahoddiad i Gôr yr Ysgol i gystadlu ar brif lwyfan yr ŵyl. Golyga hyn y bydd Côr yr ysgol yn un o'r nifer fechan o gorau o Gymru a fydd yn mynychu'r ŵyl. Bydd yn brofiad arbennig i'r Côr i gyd. Llongyfarchiadau arbennig iddynt ac i Mr Roberts gan i Gôr Ger y Lli gael gwahoddiad hefyd. Bydd cyfleoedd i wrando ar gôr yr ysgol yn ystod y misoedd nesaf ac mae pawb yn edrych ymlaen at yr ymarfer a'r gwaith caled sydd o'm blaen.

### Judge's Lodging

Ar fore oer ond braf ym mis Rhagfyr, teithiodd cyfnod Allweddol 2 i fyny i Lanandras i ymweld â'r Judge's Lodging. Yn wahanol i'r llynedd nid oedd yn bwrw eira, er gwelwyd caeau gwyn ar Landegley. Yn ystod yr ymweliad, cafwyd cyfleoedd i ymweld â rhannau o'r adeilad i astudio yr eitemau a roddwyd mewn sannau ar noswyl Nadolig, y tegannau a roddwyd i blant tlawd a chyfoethog. Trafodwyd cardiau Nadolig o'r cyfnod cyn ymweld â'r gegin i weld pa fwyd a baratowyd ar gyfer y wledd Nadolig. Rhoddwyd cyfle iddynt hefyd chwarae gêmau traddodiadol o'r cyfnod ac i glywed hanesion am eu harferion. Cafwyd diwrnod arbennig gyda'r disgyblion yn cael cyfle i weld bywyd y cyfnod yn dod yn fyw o flaen eu llygaid.

### Bwlch Nant yr Arian

Bu'r cyfnod sylfaen ar daith yn ddiweddar i ymweld â Sion Corn yng nghoedwig Bwlch Nant yr Arian. Bu'r criw yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau amrywiol. Roedd yn rhaid dod o hyd i'r cliwiau a'u dilyn cyn cyrraedd Siôn Corn. Llwyddodd pawb i gwrdd ag ef yn y diwedd. Da iawn chi.

### Pacio Bagiau

I godi arian i goffrau yr ysgol, gwelwyd disgyblion a rhieni'r ysgol yn archfarchnad Morrisons yn pacio bagiau. Treuliwyd pedair awr yno a chasglwyd swm anhygoel. Diolch i'r disgyblion a'r rhieni a ddaeth i bagio'r bagiau.

### Calendr

Eleni, bydd yr ysgol yn gwerthu calendrau arbennig. Mae'r ysgol yn dathlu ei phen blwydd yn 150 mlwydd oed yn 2013 a cyhoeddwyd calendr arbennig i'w ddathlu. Os hoffech ei weld, mae copïau ar werth yn yr ysgol am £6. Diolch i'r holl gwmnïau a fu'n barod i noddi'r calendr.

### Newid staff

Yn ystod mis Tachwedd, ffarweliwyd â dwy aelod o staff a fu yn yr ysgol am dros 9 mlynedd. Apwyntiwyd Mrs Hicks i swydd o fewn yr Awdurdod Addysg Lleol a dechreuodd ar ei swydd ar gychwyn Mis Tachwedd. Ar ddiwedd y mis, cychwynodd Mrs Rees ar swydd o fewn y Cynulliad yn Aberystwyth. Fel ysgol, dymuniadau gorau i'r ddwy ohonynt yn eu gyrfaoedd newydd a diolch am eu gwasanaeth arbennig dros y blynyddoedd. Apwyntiwyd Mrs Thomas-Martin i ymgymryd â swydd Clerc yr ysgol ac erbyn hyn, mae wedi cychwyn ar ei swydd newydd. Croesawyd Mrs Angharad Evans yn ôl i'r ysgol am gyfnod o gyflenwi yn lle Mrs Hicks. Llongyfrachiadau iddynt a phob dymuniad da. Croesawyd Holly Richards hefyd atom ar brofiad gwaith o Goleg Ceredigion. Croeso iddi atom.

### Gymnasteg

Llongyfarchiadau i ddisgyblion yr ysgol a fu'n cystadlu yng Nghystadleuaeth Gymnasteg yr Urdd, Ardal Aberystwyth. Bu criw wrthi yn ddiwyd yn ymarfer ar ôl ysgol am wythnosau. Gwelwyd y grŵp yn ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth i ysgolion o dan 100 o blant. Byddant yn awr yn symud ymlaen i'r gystadleuaeth Sirol yn y flwyddyn newydd. Llongyfarchiadau hefyd i'r triawd fu'n cystadlu mewn cystadleuaeth gref iawn. Er na chawsant wobr, cafwyd perfformiad arbennig. Aelodau'r grwpiau oedd – Cerys Ann Reeves, Zoe Evans, Elain Donnelly a Beca Jenkins; Steffan Huxtable, Charlotte Ralphs, Zoe Rhodes, Sian James, Ceri Ann Garratt, Florrie Lithgow a Charlotte Richmond. Diolch i Miss Cory am eu hyfforddi.

### Gala Nofio'r Urdd

Aeth criw o ddisgyblion i lawr i bwll nofio Plas-crug i gymryd rhan yng Ngala nofio yr Urdd. Er y cystadlu cryf iawn, gwelwyd y nofwyr yn llwyddo i ddod yn uchel yn eu rasys. Llongyfarchiadau iddynt i gyd am eu hymdrechion. Y nofwyr gynrychiolodd yr ysgol oedd:- Elain Donnelly, Cerys Ann Reeves, Zoe Evans, Charlotte Richmond, Florrie Lithgow a Sian Jenkins.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda gan holl staff a phlant yr ysgol a diolch i bawb eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

**Amlenni ar werth**

**381 x 254mm / 15" x 10"**
**115 gsm manila**
**adlynol ('self-adhesive')**
**250 mewn bocs heb ei agor £14**
**tua 240 mewn bocs sydd wedi ei agor £13**

Cysyllter â'r Trysorydd
**Hedydd Cunningham**
**01970 820652**
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# Ysgol Penweddig



Triawd cystadleuaeth gymnasteg yr Urdd – Elain Donnelly, Zoe Evans a Cerys Ann Reeves



Llongyfarchiadau i chwechawd cystadleuaeth gymnasteg yr Urdd am ddod yn gyntaf a mynd ymlaen i'r Rownd Genedlaethol – Steffan Huxtable, Florrie Lithgow, Sian James, Zoe Rhodes, Charlotte Ralphs a Ceri Ann Garratt



Nofwyr yng ngystadleuaeth rhanbarthol Ceredigion



Cystadleuwyr yn Ffair Aeaf yn Llanelwedd

### Pencampwyr Ceredigion

Nos Iau yr 8fed Tachwedd, o dan lifoleuadau Clwb Pêl-droed Aberystwyth, fe chwaraeodd tîm pêl-droed hŷn yr ysgol yn erbyn Penglais a'u curo 5-1. Sgoriodd Rhydian Davies drithro a chafwyd dwy gôl gan Harri James.



### Cofeb Angharad

I gofio Angharad Williams, disgybl yr ysgol a fu farw ym mis Tachwedd 2011, aeth ei brawd Tomos a rhai o'i ffrindiau ati i greu mosäig lliwgar gyda chymorth yr artist lleol Pod Clare. Dadorchuddiwyd y gofeb ym mhrif rhodfa'r ysgol yng nghwmni cyd-ddisgyblion Angharad mewn gwasanaeth arbennig.




mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists

Cam wrth Gam

**Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?**

Dyma gyfle gwych ichi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant** yn y gweithle – a derbyn grant hyfforddiant tra'n astudio.

**Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, o 1 Ebrill 2013 hyd 31 Mawrth 2014.**

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd ac ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am becyn gwybodaeth:
☎ **01970 639 601**
**post@camwrthgam.co.uk**
**www.camwrthgam.co.uk**

**Dyddiad cau: 14 Ionawr, 2013.**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**www.meithrin.co.uk**

# Ysgol Rhydypennau

### Mynd am Dro

Fe aeth y dosbarth Meithrin a'r Derbyn ar daith yn y bws yn ddiweddar. Pwrpas y daith oedd cyrraedd y goedwig wrth ymyl Gogerddan. Wrth fynd am dro drwy'r coed, gwelwyd nifer o bethau diddorol iawn yn cynnwys bywyd gwyllt a phlanhigion amrywiol. Cafwyd cyfle hefyd i arsylwi ar yr holl ddail sydd wedi disgyn o'r coed yn ystod yr hydref a bu'r plant wrthi'n ddiwyd yn cymharu siapiau a lliwiau'r holl ddail.

### Dyfeisio a Darganfod

Ar y 3ydd a'r 4ydd o Dachwedd cafwyd ymweliad arall gan Mr Eifion Collins, XL Wales. Cafodd pob plentyn o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 6 gyfleuon i ddatblygu eu sgiliau datrys problemau. Ac, fel arfer, roedd gweithgareddau Mr Collins yn arbennig o dda.

### Noson Agored

Ar y 13eg a'r 14eg o Dachwedd, cynhaliwyd noson agored Tymor Yr Hydref. Cafodd rhieni plant blynyddoedd 1 i 6 gyfle i drafod cynnydd a datblygiad eu plant yn ystod y tymor hwn.

### Adran yr Urdd

Cynhaliwyd Noson Calan Gaeaf Adran Yr Urdd yn yr ysgol yn ddiweddar. Cafodd aelodau'r Urdd gyfle i wisgo gwisg ffansi a mwynhau'r noson arbennig hon. Cafodd nifer o blant wobrau hael a chytunodd pawb fod y noson wedi bod yn un ddifyr iawn.

### Plant mewn angen

Roedd hi'n ddiwrnod Plant mewn Angen ar y 16eg o Dachwedd. Bu'r Cygor Ysgol yn brysur yn trefnu nifer o weithgareddau difyr er mwyn codi arian i'r elusen. Ar ddiwedd y dydd casglwyd £364.66.

### Talebau Morrissons

Diolch yn fawr i bawb a fu'n casglu talebau Morrisons dros y misoedd diwethaf. Ar ôl llwyddo i gyfri'r cyfan gwelwyd fod dros 16,000 o dalebau wedi eu casglu. 'Rydym wedi archebu llu o offer garddio yn barod ar gyfer y gwanwyn.

### Chwaraeon

Cynhaliwyd Trawsgwlad Cylch Aberystwyth ar Ddydd Gwener 7ed o Hydref ar gaeau'r Ficerdi. Cynrychiolwyd yr ysgol gan 60 o blant blynyddoedd 3 i 6. Llwyddodd pob un ohonynt i orffen y cwrs a chafwyd perfformiadau arbennig gan y canlynol gan iddynt orffen yn y deg cyntaf; Lili Lyons, blwyddyn 3 (5ed); Lydia Powell, blwyddyn 4 (1af); Gruff Lewis, blwyddyn 4 (3ydd); Siân Duckett, blwyddyn 5 (3ydd); Cerys Scott, blwyddyn 5 (10ed); Tomos Lyons, blwyddyn 5 (7ed); Catrin Manley, blwyddyn 6 (7ed); Mali Bailey, blwyddyn 6 (10ed); Mi fyddant nawr yn rhedeg yn erbyn y goreuon o Geredigion yn y flwyddyn newydd.

Da iawn pawb a fu'n nofio yng ngala'r Urdd ym mhwll nofio Plascrug yn ddiweddar. Gala i holl ysgolion Ceredigion oedd hon ac yr oedd nofwyr safonol iawn yn cystadlu. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am orffen yn y tri cyntaf; Llŷr Williams, Rhydd Bechgyn blwyddyn 6 (2il); Catrin Manley, Broga Merched blwyddyn 6 (3ydd); Leanna Williams, Cefn Merched blwyddyn 4 (3ydd) a'r tîm Cyfnewid Cymysg i ferched blwyddyn 3 a 4- Leanna Williams, Selina Williams, Chloe Jones, Megan Glover (3ydd).

Nadolig Llawen! i holl ddarllenwyr '*Y Tincer*'.

**Am fwy o wybodaeth cliciwch ar**
**www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk**



Noson Calan Gaeaf



Cerdded yn y coed



Prynu a gwerthu i Blant Mewn Angen



Dyfeisio a Darganfod

# Ysgol Pen-llwyn

### Ymweliad yr Ysgol Feithrin

Braf oedd croesawu plant Ysgol Feithrin Pen-llwyn atom i gwblhau nifer o weithgareddau yn ystod y bore. Gyda'r tywydd yn dechrau oeri y thema oedd Dynion eira. Fe wnaeth y plant fisgedi hyfryd gan ddefnyddio melysion a ddewiswyd yn ofalus a gyda chryn help staff Losin Lysh ym Machynlleth! Yn ogystal fe fwynhaodd y plant weithgareddau collage ar yr un thema. Diolch i'r plant am ganu yn hyfryd iddom hefyd.

### Y Bws Coginio

Fe ddylai y rhai hynny sy'n paratoi cinio Nadolig gael dipyn o help eleni o blant dosbarth 2 gan iddynt gael y cyfle i ddatblygu a mireinio eu sgiliau yn y Bws Coginio a oedd wedi ei barcio y tu allan i'r ganolfan hamdden. Yn ystod y bore fe goginiwyd ffyn bara a salad ffrwythau gan y plant. Yn ogystal a choginio bwyd hyfryd fe ddysgon nhw am bwysigrwydd iechyd a diogelwch wrth goginio yn enwedig pan yn torri ffrwythau. Fe fydd ambell i riant yn siwr o gael eu cywiro os nad ydynt yn defnyddio'r 'bont' yn gywir!

### Papur Penllwyn

Mae'r gwaith wedi dechrau ar ysgrifennu y rhifyn nesaf o 'Papur Penllwyn' sef papur newydd yr ysgol wedi ei gynhyrchu gan y plant. Os am weld y rhai sydd wedi eu cynhyrchu'n barod beth am fynd at ein gwefan www.ysgolpenllwyn.com

### O'r bwrdd du i'r Plasma.

Mae dosbarth 2 wedi symud dosbarth erbyn hyn ac nawr yn yr ystafell ger y brif fynedfa yn hytrach nag yn y caban. Am rai wythnosau rhaid oedd defnyddio yr hen fwrdd du ond erbyn hyn mae gennym teledu plasma newydd ar y wal diolch i gefnogaeth gwerthfawr y gymdeithas rhieni ag athrawon. Does un o'r plant wedi gofyn am y bwrdd du yn ol er i rhai o'r rhieni ddangos ychydig o dristwch wrth ei weld yn mynd.

### Cysylltiadau Ewropeaidd

Mae'r ysgol yn gweithio ar hyn o bryd ar ddatblygu cais i ddyfnhau cysylltiadau gydag ysgolion yn Iwerddon, Ffrainc, Sweden a Denmarc. Fe fuodd Mr Lewis yn cyfarfod ac athrawon o'r ysgolion yn Limasol yn ddiweddar.

### Rhedeg Traws Gwlad

Fe fu plant dosbarth 2 yn cystadlu yng nghystadleuaeth rhedeg traws gwlad ysgolion cylch Aberystwyth ar yr 8fed o Dachwedd. Braf oedd gweld ymdrech arbennig gan bawb. Rhaid yw nodi ymdrech Alaw Evans a wnaeth yn ardderchog gan orffen yn bedwerydd yn y ras i ferched dosbarth 6.

### Croeso

Croeso cynnes i Miss Lucy Hughes sydd yn dysgu ym Mhen-llwyn bob Dydd Llun ac hefyd i Deanna Thompson sydd ar brofiad gwaith yma o Goleg Ceredigion. Mae'r ddwy wedi setlo i mewn yn dda.

### Rhodd i'r ysgol

Mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn am rodd o £100 a dderbyniwyd oddi wrth Sioe Capel Bangor. Diolch o galon.

y tincer



Alaw Evans sydd wrthi'n ymarfer ar gyfer y ras nesaf erbyn hyn.



Miss Hughes a Deianna yn cynnal gwers Chwaraeon.



Rhai o'r bisgedi a wnaethpwyd gan blant yr Ysgol Feithrin.

# Tasg y Tincer






Daeth pob math o greaduriaid lliwgar drwy'r post yn ystod y mis Diolch i chi am liwio: Lily-May Welsby, Penparcau, Aberystwyth; Owen Williams, Capel Bangor; Morwen, Y Borth; Seren Pugh, Bow Street; Nia Clubb, Llandre; Jude Coleridge, Y Borth; Carys Thomas, Capel Bangor.

Roedd lluniau pawb yn arbennig, ond **Owen**, sy'n cael y wobr y mis hwn. Da iawn ti, a da iawn bawb.


Mae'n siŵr fod pob un ohonoch wedi cymryd rhan mewn cyngerdd, sioe neu wasanaeth Nadolig. Falle fod rhai ohonoch, fel fi, wedi colli eich llais am eich bod wedi canu gormod! Gobeithio i chi fwynhau. Tybed a oes rhai ohonoch wedi clywed yr enw **Mari Lwyd**? Wel, rydym yn cofio am yr hen Fari Lwyd yr adeg hon o'r flwyddyn. Ond na, nid merch yw Mari ... penglog ceffyl yw hi! Erstalwm fe fyddai pobl yn cario'r Fari Lwyd – sef penglog y ceffyl â lliain drosti – o ddrws i ddrws adeg y Nadolig ac yn canu caneuon. Byddai tipyn o hwyl rhwng y bobl oedd yng ngofal y Fari Lwyd a'r bobl yn y tŷ, a byddai pawb yn dod at ei gilydd yn y diwedd ac yn cael parti o fwyd a diod. Mae yna Fari Lwyd i'w gweld yn yr amgueddfa yn Sain Ffagan, felly os ewch chi yno ar drip o'r ysgol, neu gyda'ch teulu, cofiwch holi am gael gweld Mari!

Y mis hwn, beth am liwio'r llun o'r goeden Nadolig yng nghanol y dref? Cofiwch roi digon o liwiau yn y llun, neu beth am glityr? Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE erbyn Ionawr 3ydd. Nadolig dedwydd i chi i gyd a wela i chi yn 2013!

Mari Lwyd yw'r enw a roed fynychaf yng Nghymru ar y pen neu ffigur ceffyl yr arferai partion 'canu gwaseila' ei gludo o ddrws i ddrws yn ystod tymor y Nadolig. Y mae'r ffigur yn ddigon adnabyddus yn nefodau tymhorol gwledydd eraill. Ymddengys ei fod gynt yn hysbys drwy hanner deheuol Cymru eithr yn ystod y ganrif bresennol anaml y'i gwelwyd y tu allan i Forgannwg, lle nad yw eto wedi llwyr ddiflannu.

Ar ddechrau defod y Fari Lwyd, canai'r parti y tu allan i'r drws gyfres o benillion traddodiadol. Yna deuai'r 'pwnco', sef y ddadl (a genid ar yr un dôn, mewn cyfuniad o benillion traddodiadol a rhai 'difyfyr') rhwng aelod o'r parti a gwrthwynebydd y tu arall i'r drws. Fel arfer, ceid tynnu coes yn lled galed wrth i'r naill ochr ddifrio'r llall am ei ganu angherddgar, ei feddwdod, ei grintachrwydd, etc.

Disgwylid i griw'r Fari Lwyd drechu yn y ddadl cyn ennill mynediad i'r ty a chael yno gacenni a diod ac, o bosibl, rodd ariannol. Weithiau, o leiaf, wedi terfynu'r 'pwnco', canai'r parti benillion ychwanegol yn cyflwyno'i holl aelodau ac yr oedd hefyd gân ffarwel y gellid ei chanu wedi'r tipyn difyrrwch ar yr aelwyd.



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 354 | RHAGFYR 2012